***Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1991 No. 974

# HOUSING, ENGLAND AND WALES

## The Housing (Prescribed Forms) (No. 2) (Welsh Forms) Regulations 1991

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *19th March 1991* |
| *Laid before Parliament* | *23rd April 1991* |
| *Coming into force - -* | *14th May 1991* |

The Secretary of State for Wales, in exercise of the powers conferred on him by section 614 of the Housing Act 1985(**1**) as extended by subsections (2) and (3) of the section 2 of the Welsh Language Act 1967(**2**) and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following Regulations:

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Housing (Prescribed Forms) (No. 2) (Welsh Forms) Regulations 1991 and shall come into force on 14th May 1991.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" means the Housing (Prescribed Forms) (No. 2) Regulations 1990(**3**).

**2.** The forms set out in the Schedule to these Regulations are hereby prescribed as versions in Welsh which may be used instead of the corresponding forms in the schedule to the principal Regulations for the purposes set out in regulation 2 of the principal Regulations.

**3.** Forms substantially to the like effect to the forms set out in the Schedule to thses Regulations may be used.

**4.** The prescribed particulars to be contained in any application for grant, the form of which is prescribed by regulations 2 and 3 above, are the particulars required by that form (other than those required by section 102(2) of the Local Government and Housing Act 1989(**4**)).

(**1**) 1985 c. 68.
(**2**) 1967 c. 66.
(**3**) S.I.1990/1730.
(**4**) 1989 c. 42.

***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

*David Hunt*
19th March 1991 — Secretary of State for Wales

SCHEDULE

**Trefn y Ffurflenni**

# FFURFLENNI YN YR IAITH GYMRAEG I'W DEFNYDDIO MEWN PERTHYNAS Â BWRIADAU DEDDF TAI 19085.

1.

Rhybudd atgyweirio mewn perthynas ag eiddo anaddas ac eithrio fflat.

2.

Rhybudd atgyweirio mewn perthynas ag eiddo anaddas sy'n fflat.

3.

Rhybudd atgyweirio mewn perthynas ag eiddo anaddas sy'n cynnwys fflat.

4.

Rhybudd atgyweirio mewn perthynas ag eiddo mewn cyflwr o anghyweiriad ond sydd heb fod yn anaddas.

5.

Rhybudd atgyweirio mewn perthynas ag eiddo i'r person sydd â rheolaeth dorstynt.

6.

Rhybudd yn mynnu cyflawni gwaith i beri bod tŷ mewn amlddaliadaeth yn addas i nifer o ddeiliaid.

7.

Rhybudd yn mynnu cyflawni gwaith i gywiro esgeuluso rheoli tŷ mewn amlddaliadaeth.

8.

Rhybudd o fwriad awdurdod fai lleol i fynd i mewn a gwneud gwaith.

9.

Rhybudd cyn ymarfer pŵer i fynd i mewn.

10.

Rhybudd cais i adennill treuliau a dynnwyd gan awdurdod tai lleol.

11.

Rhybudd sy'n ei gwneud yn ofynnol talu rhent i awdurdod tai lleol.

12.

Rhybudd sy'n rhoi'r gorau i'r gofyniad i dalu rhent i'r awdurdod tai lleol.

13.

Gorchymyn cau.

14.

Gorchymyn dymchwel.

15.

Rhybudd yn mynnu i ddeiliad ymadael ag eiddo ar ôl i orchymyn dymchwel ddod i rym.

16.

Rhybudd o fwriad awdurdod tai lleol i lanhau eiddo sy'n destun gorchymyn dymchwel.

17.

Rhybudd i fwrw ymlaen â gwaith dymchwel ar ôl glanhau'r eiddo.

18.

Gosod Gorchymyn cau yn lle gorthymyn dymchwel.

19.

Gosod Gorthymyn dymchwel yn lle gorthymyn cau.

20.

Rhybudd o fwriad awdurdod tai lleol i gynnwys adeilad mewn ardal glirio.

21.

Rhybudd o benderfyniad awdurdod tai lleol i brynu eiddo sy'n agored i gael ei ddymchwel neu ei gau.

22.

Tystysgrif addasrwydd sy'n deillio o welliannau neu newidiadau gan berthennog yr eiddo.

23.

Rhybudd o ddiddymu trwydded sy'n awdurdodi mwy na'r nifer a ganiateir i gysgu mewn annedd.

24.

Rhybudd sy'n hysbysu'r landlord fod gordyrru mewn annedd.

25.

Rhybudd sy'n mynnu gwybodaeth am bersonau sy'n cysgu mewn annedd..

26.

Rhybudd sy'n mynnu bod deiliad mewn annedd yn lleddfu gordyrru.

27.

Rhybudd o fwriad yr awdurdod tai lleol i gyfyngu drwy gyfarwyddyd ar nifer y deiliaid mewn tŷ, neu ran o dŷ, mewn amlddaliadaeth.

28.

Cyfarwyddyd yn cyfyngu ar nifer y trigolion mewn tŷ, neu ran o dŷ, mewn amlddaliadaeth.

29.

Rhybudd sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth am nifer y trigolion mewn tŷ, neu ran o dŷ, mewn amlddaliadaeth mewn perthynas â chyfarwyddyd sy'n dal mewn grym.

30.

Diddymu neu amrywio cyfarwyddyd i gyfyngu ar nifer y trigolion mewn tŷ, neu ran o dŷ, mewn amlddaliadaeth.

31.

Rhybudd o fwriad awdurdod tai lleol i gyflwyno rhybudd gordyrru mewn perthynas â thŷ mewn amlddaliadaeth.

32.

Rhybudd gordyrru mewn perthynas â thŷ mewn amlddaliadaeth.

33.

Diddymu neu amrywio rhybudd gordyrru mewn perthynas â thŷ mewn amlddaliadaeth.

34.

Rhybudd sy'n ei gweneu yn yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth ar ôl cyflwyno gwybodaeth a rhybudd gordyrru o dan adran 358 mewn grym.

35.

Gorchymyn caub mewn perthynas â rhan o dŷ mewn amlddaliadaeth.

36.

Gorchymyn rheoli mewn perthynas â thŷ mewn amlddaleadaeth.

37.

Rhybudd a gyflwynir gyda'r gorthymyn rheoli.

38.

Rhybudd o fantolion sy'n daladwy i berthennog a ddifeddiannwyd adeg terfynu gorthymyn rheoli.

39.

Rhybudd i alluogi'r awdurdod tai lleol i adenill gwariant cyfalaf a dalwyd wrth gyflawni gwaith cyn i'r gorchymyn rheoli beidio â bod mewn grym.

Signature

Explanatory Note

# FFURFLEN 1

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 189(1)

RHYBUDD I GYFLAWNI GWAITH ATGYWEIRO AR [ANNEDD][TŶ MEWN AMLDDALIADAETH] ANADDAS SYDD HEB FOD YN FFLAT[MEWN AMLDDALIADAETH]

At o

1. Chi yw'r person [sydd â rheolaeth dros] [sy'n rheoli] [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] a elwir

("yr eiddo").

2. Mae Cyngor yn fodlon nad yw'r eiddo'n addas i bobl fyw ynddo fel y disgrifir yn Atodiad 1 y rhybudd hwn.

3. Mae'r Cyngor, ar ôl rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A Deddf Tai 1985, yn fodlon mai'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r eiddo yw cyflwyno rhybudd atgyweirio o dan Adran 189(1) y Ddeddf.

4. Ym marn y Cyngor, bydd y gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd hwn ("y gwaith") [o'i gymryd gyda'r gwaith y bwriedir ei gyflawni o dan gynllun atgyweirio grŵp] yn peri bod yr eiddo'n addas i bobl fyw ynddo.

5. O dan adran 189 y Ddeddf, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith ac i'w ddechrau erbyn y dydd o 19 fan bellaf a'i gwblhau o fewn y cyfnod o i'r dyddiad hwnnw.

### ATODIAD 1

Ym marn y Cyngor, mae'r eiddo'n methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(1) Deddf Tai 1985–
ac, oherwydd y methiant hwnnw, nid yw'r eiddo'n rhesymol addas i bobl fyw ynddo.

### ATODIAD 2

Rhestr o'r gwaith sydd i'w gyflawni

[Dyddiad a llofnod]

### NODIADAU

(fel y'u nodir ar ôl Ffurflen 3 isod)

# FFURFLEN 2

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 189(1)

RHYBUDD I GYFLAWNI GWAITH ATGYWEIRIO AR FFLAT ANADDAS [MEWN AMLDDALIADAETH]

At o

1. Chi yw'r person [sydd â rheolaeth dros] [sy'n rheoli] y fflat [mewn amlddaliadaeth] a elwir ("y fflat")

2. Mae Cyngor yn fodlon nad yw'r fflat yn addas i bobl fyw ynddi fel y disgrifir yn Atodiad 1 y rhybudd hwn.

3. Mae'r Cyngor, ar ôl rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A Deddf Tai 1985, yn fodlon mai'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r fflat yw cyflwyno rhybudd atgyweirio o dan adran 189(1).

4. Ym marn y Cyngor, bydd y gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd hwn ("y gwaith") [, ynghyd â'r gwaith ychwanegol a nodir yn y rhybudd atgyweirio a gyflwynir o dan adran 189(1A) y Ddeddf ar o ] yn peri bod y fflat yn addas i bobl fyw ynddi [o'i gymryd gyda'r gwaith y bwriedir ei gyflawni o dan gynllun atgyweirio grŵp].

5. O dan adran 189(2) y Ddeddf, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith ac i'w ddechrau erbyn y dydd o 19 fan bellaf a'i gwblhau o fewn y cyfnod o i'r dyddiad hwnnw.

### ATODIAD 1

Ym marn y Cyngor, mae'r eiddo'n methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(1) Deddf Tai 1985–

[ac [mae'r adeilad sy'n cynnwys y fflat] [mae'r rhan o'r adeilad sy'n cynnwys y fflat sydd y tu allan i'r fflat, sef ]

yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(2) Deddf Tai 1985– ]

ac, oherwydd y methiant hwnnw, nid yw'r fflat yn rhesymol addas i bobl fyw ynddi.

### ATODIAD 2

Rhestr o'r gwaith sydd i'w gyflawni

[Dyddiad a llofnod]

### NODIADAU

(fel y'u nodir ar ôl Ffurflen 3 isod)

# FFURFLEN 3

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 189(1A)

RHYBUDD I WNEUD GWAITH ATGYWEIRIO AR RAN O ADEILAD SY'N CYNNWYSFFLAT ANADDAS [MEWN AMLDDALIADAETH]

At o

1. Chi yw'r person sy'n rheoli'r eiddo [a elwir] [sy'n cynnwys] ("yr eiddo").

2. Mae'r eiddo'n rhan o'r adeilad sy'n cynnwys y fflat [mewn amlddaliadaeth] ("y fflat") a elwir sydd y tu allan i'r fflat.

3. Mae Cyngor yn fodlon nad yw'r fflat yn addas i bobl fyw ynddi fel y disgrifir yn Atodiad I y rhybudd hwn.

4. Mae'r Cyngor, ar ôl rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A Deddf Tai 1985, yn fodlon mai'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r fflat yw cyflwyno rhybudd atgyweirio mewn perthynas â'r eiddo o dan adran 189(1A).

5. Ym marn y Cyngor, bydd y gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd hwn ("y gwaith") [, ynghyd â'r gwaith ychwanegol a nodir yn y rhybudd atgyweirio a gyflwynwyd o dan adran 189(1) y Ddeddf ar o ] yn peri bod y fflat yn addas i bobl fyw ynddi [o'i gymryd gyda'r gwaith y bwriedir ei gyflawni o dan gynllun atgyweirio grŵp].

6. O dan Adran 189(2) y Ddeddf, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith ac i'w ddechrau erbyn y dydd o 19 fan bellaf a'i gwblhau o fewn y cyfnod o i'r dyddiad hwnnw.

### ATODIAD 1

Ym marn y Cyngor [mae'r fflat yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(1) Deddf Tai 1985–

]

[ac mae'r] [adeilad sy'n cynnwys y fflat] [eiddo] yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(2) Deddf Tai 1985–

ac, oherwydd y methiant hwnnw, nid yw'r fflat yn rhesymol addas i bobl fyw ynddi.

### ATODIAD 2

Rhestr o'r gwaith sydd i'w gyflawni

[Dyddiad a llofnod]

### NODIADAU

(fel y'u nodir ar ôl Ffurflen 3 isod)

## NODIADAU I FFURFLENNI 1–3

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 15 Deddf Tai 1988 ac Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).

### [Tŷ mewn amlddaliadaeth

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo. [Cyfeirir at ran o adeilad sy'n dŷ mewn amlddaliadaeth fel fflat mewn amlddaliadaeth.]

(adran 345)]*

*Cynhwyser y nodyn hwn, fel y bo'n briodol, pan fo'r rhybudd yn ymwneud yn unig â thŷ neu fflat mewn amlddaliadaeth.

### [Cynllun atgyweirio grŵp

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai'r eiddo y mae'r rhybudd hwn yn ymwneud ag ef ddod yn rhan, yn ystod y 12 mis nesaf, o gynllun atgyweirio grŵp o dan adrannau 127–130 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. O dan y cynllun hwnnw, bydd y Cyngor yn trefnu i du allan bloc o bedwar tŷ, o leiaf, gael ei roi mewn cyflwr rhesymol, ond bydd y perchennog yn talu rhan neu'r cyfan o'r gost. Mae angen caniatâd y perchennog er mwyn cynnwys yr eiddo mewn cynllun. Bydd y Cyngor yn rhoi manylion llawn y cynllun i chi maes o law. Os nad yw'r eiddo yn y pen draw yn rhan o gynllun atgyweirio grŵp, am ba reswm bynnag, gall fod angen i'r Cyngor gyflwyno rhybudd atgyweirio pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith atgyweirio a fyddai wedi cael ei gyflawni o dan y cynllun.

(adran 190A)]*

* Cynhwyser y nodyn hwn yn unig lle bo adran 190A yn gymwys.

### Yr hawl i apelio

Os nad ydych yn cytuno â'r rhybudd hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

(adran 191(1))

Er enghraifft, gallwch apelio

—os credwch y dylai rhyw berson arall sy'n "berchennog" yr eiddo y mae'r rhybudd yn ymwneud ag ef wneud y gwaith neu dalu'r cyfan neu ran o gost ei wneud. At y diben hwn, mae "perchennog" yn golygu person sydd â'r rhydd-ddaliad neu â phrydles sydd â mwy na 3 blynedd i fynd. Os apeliwch ar y sail hon, bydd yn rhaid i chi gyflwyno copi o'ch rhybudd apelio i'r person arall dan sylw.

(adran 191(1A), (3A) ac adran 207)

—os credwch mai gwneud gorchymyn cau o dan adran 264 (a fyddai'n rhwystro'r eiddo rhag cael ei ddefnyddio i bobl fyw ynddo) neu orchymyn dymchwel o dan adran 265 (a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol dymchwel yr eiddo) yw'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r eiddo. Os ydych yn apelio felly, bydd y llys yn rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A y Ddeddf.

(adran 191(1B) ac adran 604A)

### Gweithredu'r rhybudd

Os nad oes apêl, daw'r gorchymyn i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno.

(adran 189(4))

Os oes apêl ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r rhybudd, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r rhybudd i rym tan i'r Llys Apêl ei gadarnhau.

(adran 191(4))

Os dechreuwch gyflwyno apêl i'r llys sirol ac yna'i thynnu'n ôl, daw'r rhybudd i rym ar y diwrnod y byddai wedi dod i rym petai'r llys sirol wedi cadarnhau'r rhybudd ar y diwrnod y bu i chi dynnu'r apêl yn ôl.

(adran 191(4))

### Effaith y rhybudd

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, gall y Cyngor wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adran 193(1) ac Atodiad 10)

I gydymffurfio â'r rhybudd, rhaid i chi ddechrau a gorffen y gwaith–

(a) os nad ydych yn apelio, erbyn y dyddiad ac o fewn yr amser a nodir yn y rhybudd,

(b) os ydych yn apelio ac os cadarnheir y rhybudd, erbyn y dyddiad ac o fewn y cyfnod a bennir gan y llys, ac

(c) os ydych yn dechrau cyflwyno apêl ac yna'n ei thynnu'n ôl, erbyn yr 21ain diwrnod ar ôl y dyddiad y daw'r rhybudd i rym ac o fewn y cyfnod (gan ddechrau ar yr 21ain diwrnod hwnnw) a nodir yn y rhybudd.

(adran 193(2))

Os cewch anhawster wrth ddod o hyd i adeiladwr i wneud y gwaith, neu os cewch unrhyw broblemau eraill wrth drefnu'r gwaith, gallwch ofyn i'r Cyngor a fyddant yn gwneud y gwaith eu hunain ac yn codi tâl arnoch am y gost.

(adran 191A)

Os yw'r Cyngor o'r farn, yn ystod y cyfnod pryd y dylid cyflawni'r gwaith, na wneir cynnydd rhesymol, fe allant, ar ôl cyflwyno rhybudd ysgrifenedig o'u bwriad i wneud hynny, wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adrannau 193(2A) ac 194(1))

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, a'r Cyngor yn codi tâl arnoch am gost gwneud y gwaith eu hunain, gallant adennill eu costau drwy ei gwneud yn ofynnol i'r tenantiaid neu'r trwyddedeion yn yr eiddo dalu rhent neu symiau ar ffurf rhent yn uniongyrchol iddynt hwy, tan yr adenillir eu costau'n llawn.

(Atodiad 10, paragraff 6A)

**Cosb**

Os ydych yn fwriadol yn methu â chydymffurfio â'r rhybudd, yr ydych yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(adran 198A(1))

**Pridiant tir**

Pan ddaw'r rhybudd i rym, bydd yn bridiant tir lleol ar yr eiddo y mae'n ymwneud ag ef. Ystyr hynny yw y caiff ei gofnodi yn y gofrestr o bridiannau tir lleol a gedwir gan y Cyngor. Mae'r rhestr yn un gyhoeddus a gall unrhyw un ei harchwilio ar ôl talu ffi. Bydd prynwyr fel rheol yn archwilio'r rhestr hon.

(adran 189(5))

**Grant**

Gall fod gennych hawl, o dan Ran VIII Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, i gael grant gorfodol oddi wrth y Cyngor tuag at gost y gwaith. Bydd yn rhaid i'r eiddo fodloni amodau rhagarweiniol y grant ym mhob achos. Dylech gysylltu â'r Cyngor a gwneud cais iddynt am y grant cyn i chi ddechrau ar y gwaith. Mae'r llyfryn "Grantiau Adnewyddu Tai", sydd ar gael oddi wrth eich Cyngor, yn esbonio'r drefn yn fwy manwl.

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Os hoffech wybod rhagor am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi ei gyflawni, efallai y byddwch yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 4

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 190(1)

RHYBUDD I GYFLAWNI GWAITH ATGYWEIRIO AR [ANNEDD][TŶ MEWN AMLDDALIADAETH]

At o

1. Chi yw'r person [sydd â rheolaeth dros] [sy'n rheoli] [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] a elwir
[sydd yn Ardal Adnewyddu ]
[lle mae tenant yn ddeiliad yr annedd neu'r tŷ].

2. Mae Cyngor yn fodlon bod [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth], er nad yw'n anaddas i bobl fyw ynddo, yn y fath gyflwr [nes bod angen gwneud gwaith atgyweirio sylweddol arno i sicrhau ei fod o safon resymol, o ystyried ei oedran, ei gymeriad a'i leoliad] [nes bod ei gyflwr yn ymyrryd yn faterol â chyffyrddusrwydd personol [y tenant] [y personau] sy'n ei feddiannu].

3. O dan adran 190(2) y Ddeddf, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith a nodir yn Atodiad y rhybudd hwn ac i'w ddechrau erbyn y dydd o 19 fan bellaf a'i gwblhau o fewn y cyfnod o i'r dyddiad hwnnw.

ATODIAD

Rhestr o'r gwaith sydd i'w gyflawni, sef gwaith nad yw'n atgyweirio addurniadol mewnol

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(fel y'u nodir ar ôl Ffurflen 5 isod)

# FFURFLEN 5

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 190(1A)

RHYBUDD I GYFLAWNI GWAITH ATGYWEIRIO AR RAN O ADEILAD SY'N CYNNWYSFFLAT [MEWN AMLDDALIADAETH]

At o

1. Mae Cyngor yn fodlon bod yr adeilad a elwir sy'n cynnwys y fflat [mewn amlddaliadaeth] ("y fflat") a elwir , er nad yw'r fflat yn anaddas i bobl fyw ynddi, yn y fath gyflwr [nes bod angen gwneud gwaith atgyweirio sylweddol ar y rhan o'r adeilad y tu allan i'r fflat sy'n cynnwys i sicrhau bod y fflat o safon resymol, o gofio'i hoedran, ei chymeriad a'i lleoliad] [nes bod cyflwr y rhan o'r adeilad y tu allan i'r fflat sy'n cynnwys yn ymyrryd yn faterol â chyffyrddusrwydd y [tenant] [personau] sy'n meddiannu'r fflat].

2. Chi yw'r person sydd â rheolaeth dros y rhan o'r adeilad dan sylw.

[Mae'r adeilad yn Ardal Adnewyddu ]
[Mae tenant yn meddiannu'r fflat].

3. O dan Adran 190(2) Deddf Tai 1985, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith a nodir yn Atodiad y rhybudd hwn ac i'w ddechrau erbyn y dydd o 19 fan bellaf a'i gwblhau o fewn i'r dyddiad hwnnw.

## ATODIAD

Rhestr o'r gwaith sydd i'w gyflawni, sef gwaith nad yw'n atgyweirio addurniadol mewnol

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(fel y'u nodir isod)

## NODIADAU I FFURFLENNI 4 a 5

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 15 Deddf Tai 1988, ac Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### [Tŷ mewn amlddaliadaeth

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo. [Cyfeirir at ran o adeilad sy'n dŷ mewn amlddaliadaeth fel fflat mewn amlddaliadaeth.]

(adran 345)]*

*Cynhwyser y nodyn hwn, fel y bo'n briodol, pan fo'r rhybudd yn ymwneud yn unig â thŷ neu fflat mewn amlddaliadaeth.

### Yr hawl i apelio

Os nad ydych yn cytuno â'r rhybudd hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

(adran 191(1))

Er enghraifft, gallwch apelio os credwch y dylai rhyw berson arall sy'n "berchennog" yr eiddo y mae'r rhybudd yn ymwneud ag ef wneud y gwaith neu dalu'r cyfan neu ran o gost ei wneud. At y diben hwn, mae "perchennog" yn golygu person sydd â'r rhydd-ddaliad neu â phrydles sydd â mwy na 3 blynedd i fynd. Os apeliwch ar y sail hon, bydd yn rhaid i chi gyflwyno copi o'ch rhybudd apelio i'r person arall dan sylw.

(adran 191(1A), (3A) ac adran 207)

### Gweithredu'r rhybudd

Os nad oes apêl, daw'r gorchymyn i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno.

(adran 190(4))

Os oes apêl ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r rhybudd, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r rhybudd i rym tan i'r Llys Apêl ei gadarnhau.

(adran 191(4))

Os ydych yn dechrau cyflwyno apêl i'r llys sirol ac yna'n ei thynnu'n ôl, daw'r rhybudd i rym ar y diwrnod y byddai wedi dod i rym petai'r llys sirol wedi cadarnhau'r rhybudd ar y diwrnod y bu i chi dynnu'r apêl yn ôl.

(adran 191(4))

### Effaith y rhybudd

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, gall y Cyngor wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adran 193(1) ac Atodiad 10)

I gydymffurfio â'r rhybudd, rhaid i chi ddechrau a gorffen y gwaith —

(a) os nad ydych yn apelio, erbyn y dyddiad ac o fewn yr amser a nodir yn y rhybudd,

(b) os ydych yn apelio ac os cadarnheir y rhybudd, erbyn y dyddiad ac o fewn y cyfnod a bennir gan y llys, ac

(c) os ydych yn dechrau cyflwyno apêl ac yna'n ei thynnu'n ôl, erbyn yr 21ain diwrnod ar ôl y dyddiad y daw'r rhybudd i rym ac o fewn y cyfnod (gan ddechrau ar yr 21ain diwrnod hwnnw) a nodir yn y rhybudd.

(adran 193(2))

Os cewch anhawster wrth ddod o hyd i adeiladwr i wneud y gwaith, neu os cewch unrhyw broblemau eraill wrth drefnu'r gwaith, gallwch ofyn i'r Cyngor a fyddant yn gwneud y gwaith eu hunain ac yn codi tâl arnoch am y gost.

(adran 191A)

Os yw'r Cyngor o'r farn, yn ystod y cyfnod pryd y dylid cyflawni'r gwaith, na wneir cynnydd rhesymol, fe allant, ar ôl cyflwyno rhybudd ysgrifenedig o'u bwriad i wneud hynny, wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adrannau 193(2A) ac 194(1))

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, a'r Cyngor yn codi tâl arnoch am gost gwneud y gwaith eu hunain, gallant adennill eu costau drwy ei gwneud yn ofynnol i'r tenantiaid new'r trwyddedeion yn yr eiddo dalu rhent neu symiau ar ffurf rhent yn uniongyrchol iddynt hwy, tan yr adenillir eu costau'n llawn.

(Atodiad 10, paragraff 6A)

**Cosb**

Os ydych yn fwriadol yn methu â chydymffurfio â'r rhybudd, yr ydych yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(adran 198A(1))

**Pridiant tir**

Pan ddaw'r rhybudd i rym, bydd yn bridiant tir lleol ar yr eiddo y mae'n ymwneud ag ef. Ystyr hynny yw y caiff ei gofnodi yn y gofrestr o bridiannau tir lleol a gedwir gan y Cyngor. Mae'r rhestr yn un gyhoeddus a gall unrhyw un ei harchwilio ar ôl talu ffi. Fel rheol, bydd prynwyr yn archwilio'r rhestr hon.

(adran 190(5))

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Grant**

Gall fod gennych hawl, o dan Ran VIII Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, i gael grant gorfodol oddi wrth y Cyngor tuag at gost y gwaith. Bydd yn rhaid i'r eiddo fodloni amodau rhagarweiniol y grant ym mhob achos. Dylech gysylltu â'r Cyngor a gwneud cais iddynt am y grant cyn i chi ddechrau ar y gwaith. Mae'r llyfryn "Grantiau Adnewyddu Tai", sydd ar gael oddi wrth eich Cyngor, yn esbonio'r drefn yn fwy manwl.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Os hoffech wybod rhagor am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi ei gyflawni, efallai y byddwch yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 6

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 352

RHYBUDD I GYFLAWNI GWAITH I BERI BOD TŶ MEWNAMLDDALIADAETH YN ADDAS I NIFER O DDEILIAID

At
o

1. Chi yw'r person [sydd â rheolaeth dros] [sy'n rheoli] y tŷ mewn amlddaliadaeth a elwir ("y tŷ").

2. Ym marn Cyngor , mae'r tŷ'n methu â bodloni'r gofynion hynny yn adran 352(1A) Deddf Tai 1985 ag a nodir yn Atodiad 1 y rhybudd hwn ac, o ystyried nifer [yr unigolion] [a'r] [y] [teuluoedd] sydd am y tro yn lletya yno, nid yw'r tŷ, oherwydd y methiant hwnnw, yn rhesymol addas i'r unigolion neu'r teuluoedd hynny fyw ynddo.

3. Ym marn y Cyngor, bydd y gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd hwn yn peri bod y tŷ'n rhesymol addas [i'r unigolion neu'r teuluoedd sy'n lletya yna am y tro fyw ynddo] [i o unigolion] [ac] [o deuluoedd], sef y nifer y gallai'r tŷ, ym marn y Cyngor, eu lletya'n rhesymol pe cyflawnid y gwaith].

4. O dan adran 352(4) y Ddeddf, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith ac i'w ddechrau erbyn y dydd o 19 fan bellaf a'i gwblhau o fewn y cyfnod o i'r dyddiad hwnnw.

## ATODIAD 1

Gofynion yn adran 352(1A) Deddf Tai 1985 y mae'r tŷ'n methu â'u bodloni

## ATODIAD 2

Rhestr o'r gwaith sydd i'w gyflawni

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiadau 9 a 12 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Tŷ mewn amlddaliadaeth

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.

(adran 345)

### Yr Hawl i Apelio

Os nad ydych yn cytuno â'r rhybudd hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi neu unrhyw gyfnod pellach y gall y Cyngor ei ganiatáu yn ysgrifenedig.

(adran 353(1))

Gellir cyflwyno apêl ar unrhyw un neu rai o'r seiliau canlynol:

(a) nad oedd cyflwr y tŷ yn cyfiawnhau bod y Cyngor, ar ôl ystyried y gofynion a nodir yn adran 352(1A), yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni'r gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd hwn;

(b) y bu rhyw anffurfioldeb, diffyg neu wall yn y rhybudd neu mewn cysylltiad ag ef (ond rhaid i'r llys wrthod yr apêl os bodlonir ef nad oedd yr anffurfioldeb, y diffyg neu'r gwall yn un materol);

(c) bod yr awdurdod wedi gwrthod yn afresymol gymeradwyo gwneud gwaith arall neu fod y gwaith a fynnir gan y rhybudd yn afresymol o ran ei natur neu ei helaethrwydd neu ei fod yn ddiangen;

(d) nad yw'r dyddiad a bennir ym mharagraff 4 y rhybudd ar gyfer dechrau'r gwaith yn rhesymol;

(e) nad yw'r cyfnod a bennir ym mharagraff 4 fel yr amser y mae'n rhaid cyflawni'r gwaith ynddo yn rhesymol ddigonol at y pwrpas;

(f) bod rhyw berson arall (a ddylai gael rhybudd priodol o'r apêl) yn llwyr neu'n rhannol gyfrifol am y sefyllfa sy'n peri bod angen cyflawni'r gwaith, neu y bydd, fel deiliad ystad neu ddiddordeb yn yr eiddo, yn elwa o gyflawni'r gwaith hwnnw, ac y dylai dalu'r cyfan neu ran o dreuliau ei gyflawni [;

(g) bod nifer [yr unigolion] [a'r] [y] [teuluoedd] a nodir ym mharagraff 3 y rhybudd yn afresymol o isel].*

(adran 353(2), (3) a (5))

*Cynhwyser yr is-baragraff hwn yn unig pan gyflwynir y rhybudd o dan adran 352(2)(b).

Os ydych yn apelio, gall y llys ganiatáu neu wrthod yr apêl; ond os bodlonir y llys bod nifer y personau sy'n byw yn y tŷ wedi ei ostwng ac y cymerwyd camau digonol i rwystro'r nifer hwnnw rhag cael ei gynyddu eto, gall ddiddymu'r rhybudd neu amrywio'r rhestr o waith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd.

(adran 353(4))

**Effaith y rhybudd**

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, gall y Cyngor wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adran 375(1) ac Atodiad 10)

I gydymffurfio â'r rhybudd, rhaid i chi ddechrau a gorffen y gwaith–

(a) os nad ydych yn apelio, erbyn y dyddiad ac o fewn yr amser a nodir ym mharagraff 4 y rhybudd,

(b) os ydych yn apelio ac os cadarnheir y rhybudd, erbyn y dyddiad ac o fewn y cyfnod a bennir gan y llys,

(c) os ydych yn dechrau cyflwyno apêl ac yna'n ei thynnu'n ôl, erbyn yr 21ain diwrnod ar ôl ei thynnu'n ôl ac o fewn y cyfnod (gan ddechrau ar yr 21ain diwrnod hwnnw) a bennir ym mharagraff 4 y rhybudd.

(adran 375(2))

Os yw'r Cyngor o'r farn, yn ystod y cyfnod pryd y dylid cyflawni'r gwaith, na wneir cynnydd rhesymol, gallant wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adran 375(3) ac Atodiad 10)

Cyn dod i mewn i'r tŷ i wneud y gwaith eu hunain, rhaid i'r Cyngor roi o leiaf 7 niwrnod o rybudd i chi o'u bwriad i wneud hynny.

(adran 375 (3A))

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, a'r Cyngor yn codi tâl arnoch am gost gwneud y gwaith eu hunain, gallant adennill eu costau drwy ei gwneud yn ofynnol i'r tenantiaid neu'r trwyddedeion yn yr eiddo dalu rhent neu symiau ar ffurf rhent yn uniongyrchol iddynt hwy, tan yr adenillir eu costau'n llawn.

(Atodiad 10, paragraff 6A)

**Cosbau**

Os ydych yn fwriadol yn methu â chydymffurfio â'r rhybudd hwn, yr ydych yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol, ac mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio (gweler uchod o dan 'Effaith y Rhybudd') wedi dod i ben.

(adran 376(1) a (2))

Os ydych, ar ôl eich cael yn euog y tro cyntaf, yn fwriadol yn methu â chyflawni'r gwaith dan sylw, yr ydych yn cyflawni trosedd bellach y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(adran 376(2))

**Pridiant tir**

Mae'r rhybudd yn bridiant tir lleol ar yr eiddo y mae'n ymwneud ag ef. Ystyr hynny yw y caiff ei gofnodi yn y gofrestr o bridiannau tir lleol a gedwir gan y Cyngor. Mae'r rhestr yn un gyhoeddus a gall unrhyw un ei harchwilio ar ôl talu ffi. Bydd prynwyr fel rheol yn archwilio'r rhestr hon.

(adran 352(5A))

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Tynnu Rhybuddion yn ôl**

Os bodlonir y Cyngor fod nifer yr unigolion sy'n byw yn yr eiddo wedi ei ostwng i lefel sy'n peri bod y gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd yn ddiangen ac y cedwir y nifer hwnnw ar neu islaw'r lefel honno, gallant dynnu'r rhybudd yn ôl.

(adran 352(5))

**Grant**

Gall fod gennych hawl, o dan Ran VIII Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, i gael grant gorfodol oddi wrth y Cyngor tuag at gost y gwaith. Bydd yn rhaid i'r eiddo fodloni amodau rhagarweiniol y grant ym mhob achos. Dylech gysylltu â'r Cyngor a gwneud cais iddynt am y grant cyn i chi ddechrau ar y gwaith. Mae'r llyfryn "Grantiau Adnewyddu Tai", sydd ar gael oddi wrth eich Cyngor, yn esbonio'r drefn yn fwy manwl.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Os hoffech wybod rhagor am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi ei gyflawni, efallai y byddwch yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 7

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 372

RHYBUDD I GYFLAWNI GWAITH I GYWIRO ESGEULUSORHEOLI TŶ MEWN AMLDDALIADAETH

At
o

1. Chi yw'r person sy'n rheoli'r tŷ mewn amlddaliadaeth a elwir
("y tŷ").

2. Ym marn Cyngor
(a) mae cyflwr y tŷ'n ddiffygiol o ganlyniad i esgeuluso cydymffurfio â'r gofynion hynny a orfodir gan Reoliadau Tai (Rheoli Tai mewn Amlddaliadaeth) 1990 (O.S. 1990/830) ac a bennir yn Atodiad 1 y rhybudd hwn, a
(b) mae'n ofynnol gwneud y gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd hwn i gywiro'r esgeulustod hwnnw.

3. O dan adran 372(3) Deddf Tai 1985, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni'r gwaith ac i'w ddechrau erbyn y dydd o 19 fan bellaf a'i gwblhau o fewn y cyfnod o i'r dyddiad hwnnw.

ATODIAD 1

Gofynion y Rheoliadau na chydymffurfiwyd â hwy

ATODIAD 2

Rhestr o'r gwaith sydd i'w gyflawni

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiadau 9 a 12 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Tŷ mewn amlddaliadaeth**

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.

(adran 345)

**Yr hawl i apelio**

Os nad ydych yn cytuno â'r rhybudd hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi neu unrhyw gyfnod hwy y gall y Cyngor ei ganiatáu yn ysgrifenedig.

(adran 373(1))

Gellir cyflwyno apêl ar unrhyw un neu rai o'r seiliau canlynol:
(a) nad oedd cyflwr y tŷ yn cyfiawnhau bod y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni'r gwaith a bennir yn Atodiad 2 y rhybudd hwn;
(b) y bu rhyw anffurfioldeb, diffyg neu wall yn y rhybudd neu mewn cysylltiad ag ef (ond rhaid i'r llys wrthod yr apêl os bodlonir ef nad oedd yr anffurfioldeb, y diffyg neu'r gwall yn un materol);

(c) bod yr awdurdod wedi gwrthod yn afresymol gymeradwyo gwneud gwaith arall neu fod y gwaith a fynnir gan y rhybudd yn afresymol o ran ei natur neu ei helaethrwydd neu ei fod yn ddiangen;

(d) nad yw'r dyddiad a bennir ym mharagraff 3 y rhybudd ar gyfer dechrau'r gwaith yn rhesymol;

(e) nad yw'r cyfnod a bennir ym mharagraff 3 fel yr amser y mae'n rhaid cyflawni'r gwaith ynddo yn rhesymol ddigonol at y pwrpas; ac

(f) bod rhyw berson arall (a ddylai gael rhybudd priodol o'r apêl) yn llwyr neu'n rhannol gyfrifol am y sefyllfa sy'n peri bod angen cyflawni'r gwaith, neu y bydd, fel deiliad ystad neu ddiddordeb yn yr eiddo, yn elwa o gyflawni'r gwaith hwnnw, ac y dylai dalu'r cyfan neu ran o dreuliau ei gyflawni.

(adran 373(2), (3) a (4))

**Effaith y rhybudd**

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, gall y Cyngor wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adran 375(1) ac Atodiad 10)

I gydymffurfio â'r rhybudd, rhaid i chi ddechrau a gorffen y gwaith–

(a) os nad ydych yn apelio, erbyn y dyddiad ac o fewn yr amser a nodir ym mharagraff 3 y rhybudd;

(b) os ydych yn apelio ac os cadarnheir y rhybudd, erbyn y dyddiad ac o fewn y cyfnod a bennir gan y llys;

(c) os ydych yn dechrau cyflwyno apêl ac yna'n ei thynnu'n ôl, erbyn yr 21ain diwrnod ar ôl y dyddiad y daw'r rhybudd i rym ac o fewn y cyfnod (gan ddechrau ar yr 21ain diwrnod hwnnw) a bennir ym mharagraff 3 y rhybudd.

(adran 375(2))

Os yw'r Cyngor o'r farn, yn ystod y cyfnod pryd y dylid cyflawni'r gwaith, na wneir cynnydd rhesymol, fe allant, ar ôl cyflwyno rhybudd ysgrifenedig o'u bwriad i wneud hynny, wneud y gwaith eu hunain a chodi tâl arnoch am y gost.

(adran 375(3) ac Atodiad 10)

Cyn dod i mewn i'r tŷ i wneud y gwaith eu hunain, rhaid i'r Cyngor roi o leiaf 7 niwrnod o rhybudd i chi o'u bwriad i wneud hynny.

(adran 375(3A))

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r rhybudd, a'r Cyngor yn codi tâl arnoch am gost gwneud y gwaith eu hunain, gallant adennill eu costau drwy ei gwneud yn ofynnol i'r tenantiaid neu'r trwyddedeion yn yr eiddo dalu rhent neu symiau ar ffurf rhent yn uniongyrchol iddynt hwy, tan yr adenillir eu costau'n llawn.

(Atodiad 10, paragraff 6A)

**Cosbau**

Os ydych yn fwriadol yn methu â chydymffurfio â'r rhybudd hwn, yr ydych yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol, ac mae hynny'n wir hyd yn oed os yw'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio (gweler uchod o dan "Effaith y rhybudd") wedi dod i ben.

(adran 376(1) a (2))

Os ydych, ar ôl eich cael yn euog am y tro cyntaf, yn fwriadol yn methu â chydymffurfio â'r rhybudd, yr ydych yn cyflawni trosedd bellach y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(adran 376(2))

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr.

Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Os hoffech wybod rhagor am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflawni, efallai y byddwch yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 8

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN [194(1)] [375(3A)]

RHYBUDD O FWRIAD AWDURDOD TAI LLEOLI FYND I MEWN A GWNEUD GWAITH

At o

1. Chi yw [y person [sydd â rheolaeth dros] [sy'n rheoli] [sy'n berchennog] [sy'n un o berchnogion] yr eiddo [a elwir] [sy'n cynnwys]

("yr eiddo").

2. Bu i Gyngor ar 19 gyflwyno rhybudd o dan adran [189] [190] [352] [372] Deddf Tai 1985 yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwaith penodol ar yr eiddo.

3. [Ni chydymffurfiwyd â'r rhybudd hwnnw] [Mae'n ymddangos i'r Cyngor na wneir cynnydd rhesymol tuag at gydymffurfio â'r rhybudd] a gall y Cyngor, o dan adran [193] [375] y Ddeddf, yn awr wneud y gwaith a fynnir gan y rhybudd [fel y'i hamrywiwyd gan y llys sirol] eu hunain.

4. Mae'r Cyngor, o dan adran [194(1)] [375(3A)] y Ddeddf, drwy hyn yn rhoi rhybudd i chi eu bod ar fin mynd i mewn i'r eiddo er mwyn gwneud y gwaith.

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 15 Deddf Tai 1988 ac Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.]

**[Effaith y rhybudd**

Os, ar unrhyw adeg ar ôl 7 diwrnod i ddyddiad cyflwyno'r rhybudd hwn a thra bo unrhyw weithiwr neu gontractor a gyflogir gan y Cyngor wrthi'n cyflawni gwaith ar yr eiddo, yr ydych chi neu unrhyw weithiwr a gyflogir gennych neu gan unrhyw gontractor a gyflogir gennych yn yr eiddo at ddiben cyflawni unrhyw waith, byddwch yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi â dirwy (gweler isod o dan "Cosb ar gyfer ceisio rhwystro"), oni allwch ddangos bod dwys angen cyflawni'r gwaith er mwyn osgoi perygl i drigolion yr eiddo.

(adran 194(2))]*

*Cynhwyser y nodyn hwn yn unig pan gyflwynir y rhybudd o dan adran 194(1).

**Adennill treuliau**

Os chi yw'r person sydd â rheolaeth dros yr eiddo, gall y Cyngor adennill oddi wrthych y treuliau a dynnant yn rhesymol wrth gyflawni'r gwaith, ynghyd â llog ar gyfradd resymol o ddyddiad cyflwyno cais am eu holl dreuliau tan y gwneir taliad llawn, a bydd y treuliau'n daliad ar yr eiddo.
(Atodiad 10)

Gall y Cyngor, ar ôl cyflwyno rhybudd ysgrifenedig, adennill eu costau drwy ei gwneud yn ofynnol i denantiaid neu drwyddedeion yn yr eiddo dalu rhent neu symiau ar ffurf rhent yn uniongyrchol iddynt hwy, tan yr adenillir eu costau'n llawn.

(Atodiad 10, paragraff 6A)

Os cyflawnir y gwaith yn awr gan y person sydd â rheolaeth dros yr eiddo neu sy'n ei reoli, gall unrhyw dreuliau gweinyddu a threuliau eraill a dynnir gan y Cyngor gyda'r bwriad o wneud y gwaith eu hunain gael eu hadennill oddi wrthynt fel petaent yn dreuliau a dynnwyd wrth gyflawni'r gwaith.

[(adran 193(4))]
[(adran 375(3B))]

**Cosb am geisio rhwystro**

Mae'n drosedd, y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, i geisio rhwystro'n fwriadol berson a awdurdodwyd gan y Cyngor i fynd i mewn i'r eiddo mewn cysylltiad â chyflawni'r gwaith.

[(adran 198] [(adran 396)]

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 9

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN [197] [319] [337] [340] [395]

RHYBUDD CYN YMARFER PŴER I FYND I MEWN

At o

1. Chi yw [deiliad] [perchennog] yr eiddo a elwir

("yr eiddo").

O dan adran [197] [319] [337] [340] [395] Deddf Tai 1985, yr wyf fi, sef person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan Gyngor , [ar] , rhwng a o'r gloch, yn bwriadu mynd i mewn i'r eiddo er mwyn [gwneud arolwg] [ac archwiliad] [prisio] [mesur ystafelloedd yr eiddo i ddarganfod at ddibenion Ran X Deddf Tai 1985 (gordyrru) faint o bersonau y caniateir iddynt ddefnyddio'r eiddo ar gyfer cysgu].

[Mae'n ymddangos i'r Cyngor fod angen arolwg ac archwiliad er mwyn penderfynu a ddylid ymarfer unrhyw bwerau o dan [Ran VI Deddf Tai 1985 (rhybuddion atgyweirio)] [Ran IX Deddf Tai 1985] (clirio slymiau)] [Ran X Deddf Tai 1985 (gordyrru)] [Ran XI Deddf Tai 1985 (tai mewn amlddaliadaeth)] mewn perthynas â'r eiddo.]

[Cyflwynwyd rhybudd atgyweirio o dan Ran VI Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r eiddo.]

[Cyflwynwyd gorchymyn [dymchwel] [cau] [adeilad rhwystrol] o dan Ran IX Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r eiddo.]

[Awdurdodir y Cyngor gan Ran IX Deddf Tai 1985 i brynu'r eiddo'n orfodol.]

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiedig | Llofnod | y person |
| | Disgrifiad | a awdurdodwyd |
| | Cyfeiriad | i fynd |
| | Rhif Ffôn | i mewn |

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 15 Deddf Tai 1988 ac Atodiadau 9 ac 11 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Cyfnod y rhybudd**

Rhaid rhoi i ddeiliad yr eiddo ac i'r perchennog, os yw'n hysbys, o leiaf [7 niwrnod] [24 awr] o rybudd o'r bwriad i fynd i mewn.

[(adran 197(1))]
[(adran 319(1))] [(adran 337(1))]
[(adran 340(1))] [(adran 395(1))]

**[Cyflwyno dogfen awdurdodi**

Rhaid i'r person a awdurdodir i fynd i mewn i'r eiddo gyflwyno'i ddogfen awdurdodi ysgrifenedig oddi wrth y Cyngor os yw'r deiliad, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, yn gofyn iddo wneud hynny.]*

[(adran 197(2))] [(adran 319(2))]
[(adran 340(2))] [(adran 395(3))]

*I'w hepgor lle'r ymarferir y pŵer i fynd i mewn o dan adran 337.

**Cosb**

Mae'n drosedd, y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 3 ar yr raddfa safonol, i geisio rhwystro'n fwriadol y person a awdurdodwyd i fynd i mewn i'r eiddo rhag cyflawni unrhyw beth y'i hawdurdodwyd ef i'w wneud.

[(adran 198)] [(adran 320)]
[(adran 341)] [(adran 396)]

# FFURFLEN 10

## DEDDF TAI 1985

## ATODIAD 10, PARAGRAFF 3

CAIS I ADENNILL TREULIAU A DYNNWYD GAN AWDURDOD TAI LLEOL

At o

1. Chi yw'r person [sydd â rheolaeth dros] [sy'n rheoli] yr eiddo [a elwir] [sy'n cynnwys] ("yr eiddo").

2. Bu i Gyngor ar , drwy ymarfer eu pwerau o dan adran [189] [190] [352] [372] Deddf Tai 1985, gyflwyno rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwaith ar yr eiddo.

3. [Ni chydymffurfiwyd â'r rhybudd] [Yr oedd yn ymddangos i'r Cyngor na wneid cynnydd rhesymol tuag at gydymffurfio â'r rhybudd] a bu i'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran [193] [375] y Ddeddf wneud y gwaith a fynnwyd gan y rhybudd [fel y'u hamrywiwyd gan y llys sirol] eu hunain.

4. Mae'r Cyngor yn hawlio tâl oddi wrthych o £ , sef y treuliau y maent wedi eu tynnu wrth [gyflawni'r] [gwblhau'r] gwaith, ynghyd â llog ar y gyfradd o y cant y o ddyddiad cyflwyno'r cais hwn tan y telir yr holl symiau sy'n ddyledus.

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 15 Deddf Tai 1988 ac Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Yr hawl i apelio

Os credwch na ddylech dalu'r swm a fynnir, gallwch apelio yn erbyn y cais hwn i'r llys sirol. Rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais hwn i chi.
(Atodiad 10, paragraff 6(1))

Os apeliwch, ni fyddwch yn gallu codi unrhyw gwestiynau y gellid bod wedi eu codi yn erbyn y rhybudd y cyfeirir ato ym mharagraff 1 y cais hwn, er enghraifft, cwestiwn sy'n gofyn a oedd y gwaith a ddisgrifiwyd yn y rhybudd yn angenrheidiol.
(Atodiad 10, paragraff 6(4))

[Fe allwch, er enghraifft, apelio ar sail y rheswm bod cynnydd rhesymol yn cael ei wneud, adeg cyflwyno rhybudd gan y Cyngor o dan adran [194(1)] [375(3A)] o'u bwriad i wneud y gwaith, tuag at gydymffurfio â'r rhybudd.]*
(Atodiad 10, paragraff 6(1A) ac (1B))

*Cynhwyser y nodyn hwn yn unig os cyflawnodd y Cyngor y gwaith yn unol ag adran 193(2A) neu 375(3).

### Gweithredu'r cais

Os nad oes apêl, daw'r cais i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno.
(Atodiad 10, paragraff 3(3))

Os deuir ag apêl ac os cadarnheir y cais, daw'r cais i rym pan benderfynir yn derfynol ar yr apêl.
(Atodiad 10, paragraff 6(3))

Ar ôl i'r cais ddod i rym, gall y Cyngor gyflwyno rhybudd i unrhyw denant neu drwyddedai sy'n talu rhent, neu daliadau ar ffurf rhent, yn yr eiddo, gan fynnu bod y taliadau hyn i'w gwneud yn uniongyrchol i'r Cyngor yn y dyfodol tan iddynt fod wedi adennill yn llawn y swm a fynnir, ynghyd ag unrhyw log sy'n ddyledus.
(Atodiad 10, paragraff 6(A))

### Y Llys Sirol

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

### Treuliau a llog

Rhaid i'r treuliau a dynnir gan y Cyngor fod wedi eu tynnu'n rhesymol a rhaid i gyfradd y llog a godir fod yn un rhesymol.

(Atodiad 10, paragraffau 1 a 4)

### Asiantau neu ymddiriedolwyr

Os ydych, mewn perthynas â'r eiddo a ddisgrifir ym mharagraff l y cais, yn gweithredu fel asiant neu ymddiriedolwr i ryw berson arall, dylech ddweud wrth y Cyngor ar unwaith gan y gall hynny gwtogi ar y swm yr ydych yn atebol i'w dalu o dan y cais hwn.

(Atodiad 10, paragraff 2)

### Treuliau a llog a godir yn dâl ar yr eiddo

Mae'r treuliau sy'n destun y cais hwn, ynghyd â llog wrth iddo ddod yn daladwy, tan i'r Cyngor eu hadennill, yn dâl a godir ar yr eiddo y cyfeiriwyd ato ym mharagraff l y cais.

(Atodiad 10, paragraff 7)

### Cyngor

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

## FFURFLEN 11

## DEDDF TAI 1985

## ATODIAD 10, PARAGRAFF 6a(1)

RHYBUDD SY'N EI GWNEUD YN OFYNNOL TALU RHENT I AWDURDOD TAI LLEOL

At o

("yr eiddo")

1. Yr ydych yn meddiannu'r eiddo fel tenant neu drwyddedai

yr ydych yn talu rhent neu swm ar ffurf rhent [iddo] [iddi] [iddynt] [i'w (h)asiant] [i'w (h)ymddiriedolwr].

2. Ar bu i Gyngor gyflwyno cais o dan baragraff 3 Atodiad 10 Deddf Tai 1985 i
[sef [asiant] [ymddiriedolwr] ] yn ei gwneud yn ofynnol talu i'r Cyngor y swm o £ , sef y treuliau a dynnwyd gan y Cyngor wrth [gyflawni'r] [gwblhau'r] gwaith mewn perthynas â'r eiddo, ynghyd â'r llog a oedd yn daladwy.

3. Daeth y cais hwnnw i rym ar
ac nid yw'r swm a hawliwyd wedi ei dalu hyd yn hyn.

4. O dan baragraff 6A Atodiad 10 y Ddeddf, mae'r Cyngor yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i chi, yn y dyfodol, dalu pob taliad rhent neu symiau ar ffurf rhent (p'un a ydynt eisoes yn daladwy neu beidio) yn uniongyrchol i'r Cyngor yn hytrach nag i

tan i'r treuliau y gall y Cyngor eu hadennill, ynghyd â'r llog sy'n daladwy, fod wedi eu talu'n briodol.

5. Gallwch wneud y taliadau [drwy'r post i'r] [yn bersonol yn y] cyfeiriad canlynol:

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Effaith y rhybudd**

Diben y rhybudd hwn yw trosglwyddo i'r Cyngor yr hawl i adennill, cael a rhoi rhyddhad rhag eich rhent neu'r symiau a dalwch ar ffurf rhent. Dylech wneud y taliadau hyn i'r Cyngor oni chyflwynant rybudd pellach i chi yn eich cyfarwyddo i weithredu fel arall.

(Atodiad 10 paragraff 6A(3))

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 12

## DEDDF TAI 1985

## ATODIAD 10, PARAGRAFF 6a(3)

RHYBUDD SY'N RHOI'R GORAU I'R GOFYNIAD I D ALU RHENTI'R AWDURDOD TAI LLEOL

At o

("yr eiddo")

1. Bu i Gyngor ar , drwy ymarfer eu pwerau o dan baragraff 6A(1) Atodiad 10 Deddf Tai 1985, gyflwyno rhybudd a'i gwnâi'n ofynnol i chi, yn y dyfodol, dalu pob taliad rhent, neu symiau ar ffurf rhent (p'un a oeddent eisoes yn daladwy neu beidio), yn uniongyrchol i'r Cyngor.

2. O dan baragraff 6A(3) Atodiad 10 y Ddeddf, mae'r Cyngor yn cyfarwyddo nad ydynt bellach yn ei gwneud yn ofynnol i chi wneud unrhyw daliadau pellach o rent, neu symiau ar ffurf rhent, iddynt hwy.

[Dyddiad a llofnod]

NODYN

**Effaith y Rhybudd**

Nid oes gan y Cyngor, bellach, yr hawl i adennill, cael a rhoi rhyddhad rhag eich rhent neu symiau a dalwch ar ffurf rhent.

# FFURFLEN 13

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 264

GORCHYMYN CAU

At o

1. Mae Cyngor yn fodlon nad yw'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau) a elwir , yn yr adeilad a elwir ,] yn addas i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt] fel y disgrifir yn Atodiad y Gorchymyn hwn.

2. Mae'r Cyngor, ar ôl rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A Deddf Tai 1985, yn fodlon mai'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] yw gwneud gorchymyn cau mewn perthynas â'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [cyfan o'r adeilad] [rhan o'r adeilad sy'n cynnwys

].

3. O dan adrannau 264 a 267 y Ddeddf, mae'r Cyngor yn gwahardd defnyddio'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [cyfan o'r adeilad] [rhan o'r adeilad a nodwyd uchod] at unrhyw ddiben na chymeradwywyd mohono gan y Cyngor [, ac yn cymeradwyo'r diben(ion) canlynol:

].

ATODIAD

Ym marn y Cyngor mae'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau)] yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(1) Deddf Tai 1985–

]

[ac mae'r] [[adeilad] [rhan o'r adeilad y tu allan i'r fflat(iau), sef

]

yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(2) Deddf Tai 1985–

]

ac, oherwydd y methiant hwnnw, nid yw'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau)] yn rhesymol addas i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt].

[Dyddiad a dilysiad]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiadau 9 a 12 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**[Tŷ mewn amlddaliadaeth**

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.

(adran 345)]*

*Cynhwyser y nodyn hwn yn unig pan fo'r gorchymyn cau yn ymwneud â thŷ mewn amlddaliadaeth.

**Yr hawl i apelio**

Os nad ydych yn cytuno â'r gorchymyn hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r gorchymyn i chi.

(adran 269(1))

Nid oes gennych yr hawl hon i apelio os ydych yn meddiannu'r eiddo neu'r rhan o'r eiddo dan sylw o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd.

(adran 269(2))

Er enghraifft, gallwch apelio ar y sail mai cyflwyno rhybudd atgyweirio o dan adran 189 neu wneud gorchymyn dymchwel o dan adran 265 yw'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r eiddo. Os ydych yn apelio felly, bydd y Llys yn rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 604A gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(adran 269(2A))

**Gweithredu'r rhybudd**

Os nad ydych yn apelio, daw'r gorchymyn hwn i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno i chi.

(adran 268(2))

Os ydych yn apelio ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r gorchymyn, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r gorchymyn i rym tan i'r Llys Apêl ei gadarnhau.

(adran 269(6))

**Defnyddio'r eiddo at ddiben arall**

Gallwch ofyn i'r Cyngor adael i chi ddefnyddio'r eiddo at ddiben penodol ac, os gwrthodant hynny'n afresymol, gallwch apelio i'r llys sirol cyn pen 21 diwrnod i'r penderfyniad hwnnw.

(adran 267(3))

**Gwneud eiddo'n addas**

Os bodlonir y Cyngor ar ryw ddyddiad yn y dyfodol fod yr eiddo (neu ran ohono) wedi ei (g)wneud yn addas i bobl fyw ynddo neu ynddi, rhaid iddynt derfynu'r gorchymyn (yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel y bo'r achos). Os gwrthodant wneud hynny, fe allwch (onid ydych yn meddiannu'r eiddo neu'r rhan o'r eiddo dan sylw o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd) apelio i'r llys sirol cyn pen 21 niwrnod ar ôl y penderfyniad hwnnw.

(adran 278)

**[Gosod gorchymyn dymchwel yn lle gorchymyn cau**

Gall y Cyngor, ar unrhyw adeg, ddiddymu'r gorchymyn cau hwn a gwneud gorchymyn dymchwel mewn perthynas â'r eiddo. Rhaid iddynt gyflwyno i chi gopi o unrhyw orchymyn dymchwel a wnânt.

(adran 279)]*

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r gorchymyn hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cosbau**

Mae unrhyw un sydd, gan wybod bod y gorchymyn hwn wedi dod i rym a'i fod yn gymwys i'r eiddo, yn defnyddio neu'n caniatáu i rywun arall ei ddefnyddio yn groes i delerau'r gorchymyn hwn, yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach o ddim mwy nag £20 y dydd os yw'n parhau i gyflawni'r drosedd ar ôl ei gael yn euog.

(adran 277)

**Iawndal sy'n daladwy i berchnogion**

Os chi yw perchennog yr eiddo, mae gennych hawl i iawndal. Mae perchennog yn berchen ar rydd-ddaliad yr eiddo neu'n ddeiliad prydles sydd â mwy na 3 blynedd i fynd. Fe asesir iawndal, yn unol â Deddf Iawndal Tir 1961, ar sail unrhyw ostyngiad yng ngwerth pryniant gorfodol eich diddordeb yn yr eiddo a achoswyd drwy wneud y gorchymyn cau hwn, a'i gymryd ar y dyddiad y gwneir y gorchymyn. Fel rheol, mae hynny'n golygu y dylai'r iawndal a gewch fod yn gyfartal â'r gostyngiad, os oes un, yn y swm y byddech wedi ei gael am eich diddordeb yn yr eiddo petaech wedi ei werthu ar y farchnad agored ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn cau, o'i gymharu â'r swm y byddech wedi ei gael petaech wedi ei werthu yn union cyn y dyddiad hwnnw.

(adran 584A)

Gall gorchymyn cau beidio ag achosi gostyngiad yng ngwerth diddordeb bob amser ac, o dro i dro, gall hyd yn oed gynyddu ei werth. O dan y naill neu'r llall o'r amgylchiadau hynny, ni thelir iawndal.

(adran 584A)

Os na allwch ddod i gytundeb gyda'r Cyngor ynglŷn â maint yr iawndal, os o gwbl, y dylech ei gael, gellir cyfeirio'r achos at y Tribiwnlys Tiroedd, sef corff annibynnol a benodwyd i ymdrin ag anghydfodau o'r fath.

(adran 584A(2)(b))

Os gwneir yr eiddo, yn ddiweddarach, yn addas i bobl fyw ynddo, ac os yw'r Cyngor yn terfynu'r gorchymyn cau hwn mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r eiddo (gweler uchod o dan "Gwneud eiddo'n addas"), gall fod yn ofynnol i chi ad-dalu peth neu'r cyfan o'r iawndal a gawsoch mewn perthynas ag ef, ar yr amod bod gennych, adeg terfynu'r gorchymyn, yr un diddordeb yn yr eiddo ag a oedd pan dalwyd yr iawndal.

(adran 584B)

[Os terfynir y gorchymyn cau am fod y Cyngor yn penderfynu gwneud gorchymyn dymchwel yn ei le (gweler uchod o dan "Gosod gorchymyn dymchwel yn lle gorchymyn cau"), caiff maint yr iawndal, os o gwbl, a gewch mewn perthynas â'r gorchymyn dymchwel ei ostwng gan faint yr iawndal, os o gwbl, a gawsoch eisoes mewn perthynas â'r gorchymyn cau hwn.

(adran 584A(3))]*

**Iawndal sy'n daladwy i ddeiliaid ac ail-gartrefu**

Gall deiliaid sy'n gorfod ymadael â'r eiddo oherwydd y gorchymyn cau hwn fod â hawl i gael taliad am golli cartref neu daliad aflonyddu oddi wrth y Cyngor o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973. Gall fod ganddynt hawl hefyd i gael eu hail-gartrefu gan y Cyngor os na allant, fel arall, ddod o hyd i lety addas ar delerau rhesymol. Gellir cael manylion pellach oddi wrth y Cyngor.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y gorchymyn hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, neu am y posibilrwydd o allu cael iawndal neu gael eich ail-gartrefu os daw'r gorchymyn i rym, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

*Cynhwyser y nodiadau hyn oni ellir ymarfer y pŵer i osod gorchymyn dymchwel yn lle gorchymyn cau mewn perthynas â'r gorchymyn cau hwn yn rhinwedd adran 279(2) neu (2A).

# FFURFLEN 14

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 265

GORCHYMYN DYMCHWEL

1. Mae Cyngor yn fodlon nad yw'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau) a elwir , yn yr adeilad a elwir ,] yn addas i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt] fel y disgrifir yn Atodiad y gorchymyn hwn.

2. Mae'r Cyngor, ar ôl rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A Deddf Tai 1985, yn fodlon mai'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] yw gwneud gorchymyn dymchwel.

3. O dan adrannau 265 a 267 y Ddeddf, mae'r Cyngor yn gorchymyn bod rhaid i'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad]–

(a) gael ei wacáu yn ystod y cyfnod o ar ôl y dyddiad y daw'r gorchymyn hwn i rym;

(b) gael ei ddymchwel o fewn y cyfnod o ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw neu, os na chaiff ei wacáu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, o fewn y cyfnod o ar ôl dyddiad ei wacáu.

## ATODIAD

Ym marn y Cyngor, [mae'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau)] yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(1) y Ddeddf–

]

[ac] [[mae'r] [adeilad] [rhan o'r adeilad y tu allan i'r fflat(iau), sef

]

yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(2) y Ddeddf–

]

ac, oherwydd y methiant hwnnw, nid yw'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau)] yn rhesymol addas i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt].

[Dyddiad a dilysiad]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiadau 9 ac 11 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**[Tŷ mewn amlddaliadaeth**

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.
(adran 345)]*

*Cynhwyser y nodyn hwn pan fo'r gorchymyn dymchwel yn ymwneud yn unig â thŷ mewn amlddaliadaeth nad yw'n fflat mewn amlddaliadaeth.

**Yr hawl i apelio**

Os nad ydych yn cytuno â'r gorchymyn hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r gorchymyn i chi.
(adran 269(1))

Nid oes gennych yr hawl hon i apelio os ydych yn meddiannu'r eiddo neu'r rhan o'r eiddo dan sylw o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd.
(adran 269(2))

Er enghraifft, gallwch apelio ar y sail mai cyflwyno rhybudd atgyweirio o dan adran 189 neu wneud gorchymyn cau o dan adran 264 yw'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r eiddo. Os ydych yn apelio felly, bydd y Llys yn rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 604A gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(adran 269(2A))

**Gweithredu'r gorchymyn**

Os nad ydych yn apelio, daw'r gorchymyn hwn i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno i chi.

(adran 268(2))

Os apeliwch ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r gorchymyn, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r gorchymyn i rym tan i'r Llys Apêl ei gadarnhau.

(adran 269(6))

**Gwacáu a dymchwel**

Rhaid i'r cyfnod a bennir ym mharagraff 3(a) y gorchymyn fod yn 28 niwrnod o leiaf, a rhaid i'r cyfnod a bennir ym mharagraff 3(b) fod yn chwe wythnos o leiaf.

(adran 267(1))

Pan ddaw'r gorchymyn i rym, rhaid i berchennog yr eiddo (h.y. deiliad y rhydd-ddaliad neu brydleswr sydd â phrydles sydd â mwy na 3 blynedd i fynd) ddymchwel yr eiddo o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff 3(b) y gorchymyn; os na ddymchwelir yr eiddo yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid i'r Cyngor gyflawni'r gwaith dymchwel eu hunain a gwerthu'r defnyddiau.

(adran 271)

Os yw'r Cyngor yn dymchwel yr eiddo eu hunain, gallant adennill y gost o wneud hynny oddi wrth y perchennog, ond rhaid iddynt gredydu iddo unrhyw arian a gawsant drwy werthu'r defnyddiau. Rhaid talu i'r perchennog unrhyw swm sydd dros ben. Ceir darpariaethau sy'n ymdrin â'r achos os oes mwy nag un perchennog.

(adran 272)

**Ailadeiladu eiddo a gondemniwyd**

Ceir darpariaethau lle gellir cyflwyno i'r Cyngor gynigion i'r eiddo gael ei ailadeiladu, ei ehangu neu ei wella. Os bodlonir y Cyngor y byddai'r cynigion hynny'n arwain at ddarparu un neu ragor o anheddau neu dai mewn amlddaliadaeth sy'n addas i bobl fyw ynddynt, gallant estyn y cyfnod a ganiateir gan y gorchymyn hwn ar gyfer cyflawni'r gwaith dymchwel ac, os cyflawnir y gwaith i safon sy'n bodloni'r Cyngor, rhaid iddynt ddiddymu'r gorchymyn hwn.

(adran 274)

**Gosod gorchymyn cau yn lle gorchymyn dymchwel**

Yn yr un modd, ceir darpariaethau lle gall y Cyngor dderbyn cynigion y dylid defnyddio'r tŷ at ddiben heblaw bod pobl yn byw ynddo ac, os yw'r Cyngor yn derbyn y cynigion, gallant osod gorchymyn cau yn lle'r gorchymyn dymchwel hwn.

(adran 275)

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r gorchymyn hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cosbau**

Mae unrhyw un sydd, gan wybod bod y gorchymyn hwn wedi dod i rym a'i fod yn gymwys i'r eiddo, yn ei feddiannu neu'n caniatáu i rywun arall wneud hynny, ar ôl y dyddiad a bennwyd gan y gorchymyn ar gyfer gwacáu'r eiddo, yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach o ddim mwy na £5 y dydd tra bydd y meddiannu'n parhau ar ôl cael y person hwnnw'n euog.

(adran 270(5))

**Iawndal sy'n daladwy i berchnogion**

Os chi yw perchennog yr eiddo, mae gennych hawl i iawndal. Fe asesir iawndal, yn unol â Deddf Iawndal Tir 1961, ar sail unrhyw ostyngiad yng ngwerth pryniant gorfodol eich diddordeb yn yr eiddo a achoswyd drwy wneud y gorchymyn dymchwel hwn, a'i gymryd ar y dyddiad y gwneir y

gorchymyn. Fel rheol, mae hynny'n golygu y dylai'r iawndal a gewch fod yn gyfartal â'r gostyngiad, os oes un, yn y swm y byddech wedi ei gael am eich diddordeb yn yr eiddo petaech wedi ei werthu ar y farchnad agored ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn, o'i gymharu â'r swm y byddech wedi ei gael petaech wedi ei werthu yn union cyn y dyddiad hwnnw.

(adran 584A)

Gall gorchymyn dymchwel beidio ag achosi gostyngiad yng ngwerth diddordeb bob amser ac, o dro i dro, gall hyd yn oed gynyddu ei werth. O dan y naill neu'r llall o'r amgylchiadau hynny, ni thelir iawndal.

(adran 584A)

Os na allwch ddod i gytundeb gyda'r Cyngor ynglŷn â maint yr iawndal, os o gwbl, y dylech ei gael, gellir cyfeirio'r achos at y Tribiwnlys Tiroedd, sef corff annibynnol a benodwyd i ymdrin ag anghydfodau o'r fath.

(adran 584A(2)(b))

Os yw'r Cyngor yn ddiweddarach yn diddymu'r gorchymyn hwn (gweler uchod o dan "Ailadeiladu eiddo a gondemniwyd"), gall fod yn ofynnol i chi ad-dalu unrhyw iawndal a gawsoch mewn perthynas ag ef, ar yr amod bod gennych, adeg terfynu'r gorchymyn, yr un diddordeb yn yr eiddo ag a oedd pan dalwyd yr iawndal.

(adran 584B(1))

**Iawndal sy'n daladwy i ddeiliaid ac ail-gartrefu**

Gall deiliaid sy'n gorfod ymadael â'r eiddo oherwydd y gorchymyn dymchwel hwn fod â hawl i gael taliad am golli cartref neu daliad aflonyddu oddi wrth y Cyngor o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973. Gall fod ganddynt hawl hefyd i gael eu hail-gartrefu gan y Cyngor os na allant, fel arall, ddod o hyd i lety addas ar delerau rhesymol. Gellir cael manylion pellach oddi wrth y Cyngor.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y gorchymyn hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, neu am y darpariaethau y gellir, odanynt, ailadeiladu, ehangu neu wella'r eiddo, neu ei ddefnyddio at ddiben heblaw bod yn lle i fyw ynddo, neu am y posibilrwydd y gallwch gael iawndal neu gael eich ailgartrefu os daw'r gorchymyn i rym, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 15

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 270

RHYBUDD I DDEILIAD I YMADAEL AG EIDDO AR ÔL I ORCHYMYN DYMCHWEL DDOD I RYM

At o

1. Yr ydych yn ddeiliad eiddo a elwir

("yr eiddo").

2. Ar , gwnaeth Cyngor orchymyn dymchwel a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo–

(a) gael ei wacáu yn ystod y cyfnod o o'r dyddiad y daw'r gorchymyn i rym, a

(b) gael ei ddymchwel yn ystod y cyfnod o ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw neu, os na chaiff yr eiddo ei wacáu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, o fewn y cyfnod o ar ôl y dyddiad y caiff ei wacáu.

3. Daeth y gorchymyn i rym ar ac mae'n ei gwneud yn ofynnol gwacáu'r eiddo erbyn .

4. O dan adran 270 Deddf Tai 1985, mae'n ofynnol i chi ymadael â'r eiddo cyn .

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Cyfnod y rhybudd i ymadael

Rhaid i'r dyddiad a bennir ym mharagraff 4 y rhybudd fod y dyddiad pryd y mae'n rhaid gwacáu'r adeilad neu, os yw'n ddiweddarach, y dyddiad ar ddiwedd 28 niwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

(adran 270(1))

### Gorchymyn troi allan

Os ydych chi, neu unrhyw un arall, yn meddiannu'r eiddo, neu unrhyw ran ohono, ar neu wedi'r dyddiad a bennir ym mharagraff 4 y rhybudd hwn fel y dyddiad y mae'n rhaid i chi ymadael ag ef, gall naill ai'r Cyngor neu berchennog yr eiddo wneud cais i'r llys sirol am orchymyn troi allan a bydd rheidrwydd ar y llys i roi meddiant gwag o'r eiddo i'r Cyngor neu'r perchennog, fel y bo'r achos.

(adran 270(2))

### Cosb

Mae unrhyw un sydd, gan wybod bod y gorchymyn dymchwel wedi dod i rym a'i fod yn gymwys i'r eiddo, yn meddiannu'r eiddo, neu unrhyw ran ohono, neu'n caniatáu i rywun arall wneud hynny, ar ôl y dyddiad a bennwyd gan y gorchymyn ar gyfer gwacáu'r eiddo, yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach o ddim mwy na £5 y dydd tra bydd y meddiannu'n parhau ar ôl cael y person hwnnw'n euog.

(adran 270(5))

### Iawndal sy'n daladwy i ddeiliaid ac ail-gartrefu

Gall deiliaid sy'n gorfod ymadael â'r eiddo oherwydd gorchymyn dymchwel fod â hawl i daliad am golli cartref neu daliad aflonyddu oddi wrth y Cyngor o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973. Gall fod ganddynt hawl hefyd i gael eu hail-gartrefu gan y Cyngor os na allant, fel arall, ddod o hyd i lety addas ar delerau rhesymol. Gellir cael manylion pellach oddi wrth y Cyngor.

### Cyngor

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, neu am y posibilrwydd o allu cael iawndal neu gael eich ailgartrefu, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 16

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 273(1)

## RHYBUDD O FWRIAD I LANHAU EIDDO SY'N DESTUN GORCHYMYN DYMCHWEL

At o

1. Chi yw perchennog yr eiddo a elwir

("yr eiddo").

2. Ar gwnaeth Cyngor orchymyn dymchwel mewn perthynas â'r eiddo ac nid yw'r gorchymyn hwnnw wedi dod i rym hyd yn hyn.

3. Mae'n ymddangos i'r Cyngor fod angen glanhau'r eiddo rhag fermin.

4. O dan adran 273 Deddf Tai 1985, mae'r Cyngor yn bwriadu glanhau'r eiddo cyn ei ddymchwel.

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, oni ddywedir fel arall.)

**Effaith y rhybudd**

Ar unrhyw adeg ar ôl i'r gorchymyn dymchwel y cyfeirir ato ym mharagraff 2 y rhybudd ddod i rym ac i'r eiddo gael ei wacáu, gall y Cyngor fynd i mewn i'r eiddo a chyflawni unrhyw waith y credant fod ei angen i ddinistrio neu ddileu fermin.

(adran 273(2)(a))

Oni chyflwynwch rybudd i'r Cyngor (gweler isod o dan "Cyflwyno rhybudd i'r Cyngor"), rhaid i'r gwaith ar ddymchwel yr eiddo beidio â dechrau, neu, os ydyw wedi dechrau cyn cyflwyno'r rhybudd hwn, rhaid peidio parhau ag ef tan i'r Cyngor gyflwyno i chi rybudd pellach sy'n caniatáu i chi fwrw ymlaen â'r gwaith dymchwel.

(adran 273(2)(b))

**Cyflwyno rhybudd i'r Cyngor**

Ar unrhyw adeg ar ôl gwacáu'r eiddo, gallwch gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni'r gwaith o fewn 14 diwrnod i'r dyddiant y cânt y rhybudd, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw byddwch yn rhydd i fwrw ymlaen â'r gwaith dymchwel p'un a wnaed y gwaith neu beidio.

(adran 273(3))

Os dymunwch gyflwyno rhybudd o'r fath i'r Cyngor, dylech gyfeirio'ch llythyr at y Cyngor a'i adael ym mhrif swyddfa'r Cyngor neu ei anfon drwy'r post i'r swyddfa honno (onid yw'r Cyngor wedi dweud wrthych am ei anfon i gyfeiriad arall o eiddo'r Cyngor).

(Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 231)

**Cosb**

Mae'n drosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol i rwystro'n fwriadol berson a awdurdodwyd gan y Cyngor i gyflawni'r gwaith y mae'r rhybudd hwn yn caniatáu iddynt ei wneud.

(adran 320)

# FFURFLEN 17

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 272(2)

RHYBUDD I FWRW YMLAEN Â GWAITH DYMCHWEL AR ÔL GLANHAUR EIDDO

At o

1. Chi yw perchennog yr eiddo a elwir

("yr eiddo").

2. Mae Cyngor wedi gwneud gorchymyn dymchwel mewn perthynas â'r eiddo, a daeth i rym ar

3. Ar cyflwynodd y Cyngor rybudd i chi, o dan adran 273(1) Deddf Tai 1985, eu bod yn bwriadu glanhau'r eiddo rhag fermin cyn ei ddymchwel.

4. Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r gwaith glanhau ac fe'ch awdurdodir yn awr i fwrw ymlaen â dymchwel yr eiddo.

[Dyddiad a llofnod]

NODYN

(Mae'r cyfeiriad statudol yn gyfeiriad at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Effaith y rhybudd**

Dylech yn awr gyflawni'r gwaith o ddymchwel yr eiddo cyn pen 6 wythnos ar ôl dyddiad cyflwyno'r rhybudd hwn i chi neu unrhyw gyfnod hwy (os o gwbl) a all fod wedi ei bennu ym mharagraff 3(b) y gorchymyn dymchwel.

(adran 273(4))

# FFURFLEN 18

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN [275] [304]

GOSOD GORCHYMYN CAU YN LLE GORCHYMYN DYMCHWEL

1. Ar gwnaeth Cyngor orchymyn dymchwel o dan adran 265 Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] a elwir
a daeth y gorchymyn hwnnw i rym ar

2. [Mae person sydd â diddordeb yn [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] [yr adeilad] wedi cyflwyno cynigion i'r Cyngor i ddefnyddio'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] at ddibenion eraill heblaw bod pobl yn byw ynddo. Mae'r Cyngor wedi derbyn y cynigion hynny ac wedi penderfynu gwneud penderfyniad ar y gorchymyn dymchwel a gosod gorchymyn cau yn ei le.]

[Mae'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] wedi ei gynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig o dan adran 1 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.]

[Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi hysbysu'r Cyngor fod diddordeb pensaernïol neu hanesyddol [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] [yr adeilad] yn ddigon i beri nad yw'n fuddiol ei ddymchwel tan y penderfynir a ddylai'r eiddo fod yn adeilad rhestredig.]

3. Mae'r Cyngor yn cyflwyno rhybudd y penderfynwyd ar y gorchymyn dymchwel.

4. O dan adran 267 ac [adran 275] [adran 304] y Ddeddf, mae'r Cyngor yn gwahardd defnyddio'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] at unrhyw ddiben na chymeradwywyd mohono gan y Cyngor [ac maent yn cymeradwyo'r diben(ion) canlynol:–

].

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiadau 9 a 12 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Gwneud eiddo'n addas

Os bodlonir y Cyngor ar ryw ddyddiad yn y dyfodol fod yr eiddo (neu ran ohono) wedi ei (g)wneud yn addas i bobl fyw ynddo neu ynddi, rhaid iddynt derfynu'r gorchymyn (yn gyfan gwbl neu'n rhannol, fel y bo'r achos). Os gwrthodant wneud hynny, fe allwch (onid ydych yn meddiannu'r eiddo neu'r rhan o'r eiddo dan sylw o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd) apelio i'r llys sirol cyn pen 21 niwrnod ar ôl y penderfyniad hwnnw.

(adran 278)

### Cosbau

Mae unrhyw un sydd, gan wybod fod y gorchymyn hwn wedi dod i rym a'i fod yn gymwys i'r eiddo, yn defnyddio neu'n caniatáu i rywun arall ei ddefnyddio yn groes i delerau'r gorchymyn hwn, yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach o ddim mwy nag £20 y dydd os yw'n parhau i gyflawni'r drosedd ar ôl ei gael yn euog.

(adran 277)

### Cyngor

Os nad ydych yn deall y gorchymyn hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 19

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 279

GOSOD GORCHYMYN DYMCH WEL YN LLE GORCHYMYN CAU

1. Ar gwnaeth Cyngor orchymyn cau o dan adran 264 Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] a elwir ("yr eiddo").

2. Mae'r Cyngor, o dan adran 279 y Ddeddf, yn diddymu'r gorchymyn cau ac, o dan adrannau 267 a 279 y Ddeddf, yn gorchymyn bod rhaid i'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad]–

(a) gael ei wacáu o fewn y cyfnod o o'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn i rym;

(b) gael ei ddymchwel o fewn y cyfnod o ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw neu, os na chaiff ei wacáu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, o fewn y cyfnod o ar ôl dyddiad ei wacáu.

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Yr hawl i apelio**

Os nad ydych yn cytuno â'r gorchymyn hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r gorchymyn i chi.

(adran 269(1))

Nid oes gennych yr hawl hon i apelio os ydych yn meddiannu'r eiddo neu'r rhan o'r eiddo dan sylw o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd.

(adran 269(2))

**Gweithredu'r gorchymyn**

Os nad ydych yn apelio, daw'r gorchymyn hwn i rym ar ddiwedd 21 diwrnod o ddyddiad ei gyflwyno i chi.

(adran 268(2))

Os apeliwch ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r gorchymyn, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r gorchymyn i rym tan i'r Llys Apêl ei gadarnhau.

(adran 269(6))

**Gwacáu a dymchwel**

Rhaid i'r cyfnod a bennir ym mharagraff 2(a) y gorchymyn fod yn 28 niwrnod o leiaf, a rhaid i'r cyfnod a bennir ym mharagraff 2(b) fod yn chwe wythnos o leiaf.

(adran 267(1))

Pan ddaw'r gorchymyn i rym, rhaid i berchennog yr eiddo (h.y. y rhydd-ddeiliad neu brydleswr sydd â phrydles sydd â mwy na 3 blynedd i fynd) ddymchwel yr eiddo o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff 2(b) y gorchymyn; os na ddymchwelir yr eiddo yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid i'r Cyngor gyflawni'r gwaith dymchwel eu hunain a gwerthu'r defnyddiau.

(adran 271)

Os yw'r Cyngor yn dymchwel yr eiddo eu hunain, gallant adennill y gost o wneud hynny oddi wrth y perchennog, ond rhaid iddynt gredydu iddo unrhyw arian a gawsant drwy werthu'r defnyddiau. Rhaid talu i'r perchennog unrhyw swm sydd dros ben. Ceir darpariaethau sy'n ymdrin â'r achos os oes mwy nag un perchennog.

(adran 272)

**Ailadeiladu eiddo a gondemniwyd**

Ceir darpariaethau lle gellir cyflwyno i'r Cyngor gynigion i'r eiddo gael ei ailadeiladu, ei ehangu neu ei wella. Os bodlonir y Cyngor y byddai'r cynigion hynny'n arwain at ddarparu un neu ragor o anheddau neu dai mewn amlddaliadaeth sy'n addas i bobl fyw ynddynt, gallant estyn y cyfnod a ganiateir gan y gorchymyn hwn ar gyfer cyflawni'r gwaith dymchwel ac, os cyflawnir y gwaith i safon sy'n bodloni'r Cyngor, rhaid iddynt ddiddymu'r gorchymyn hwn.

(adran 274)

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r gorchymyn hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cosbau**

Mae unrhyw un sydd, gan wybod bod y gorchymyn hwn wedi dod i rym a'i fod yn gymwys i'r eiddo, yn ei feddiannu neu'n caniatáu i rywun arall wneud hynny, ar ôl y dyddiad a bennwyd gan y gorchymyn ar gyfer gwacáu'r eiddo, yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach o ddim mwy na £5 y dydd tra bydd y meddiannu'n parhau ar ôl cael y person hwnnw'n euog.

(adran 270(5))

**Iawndal**

Os chi yw perchennog yr eiddo, gall fod gennych hawl i gael iawndal. Asesir iawndal ar yr un sail â honno a oedd yn gymwys i'r gorchymyn cau y gwnaed y gorchymyn dymchwel hwn yn ei le. Caiff yr iawndal, os o gwbl, a gewch mewn perthynas â'r gorchymyn dymchwel hwn ei ostwng o faint yr iawndal, os o gwbl, a gafwyd gennych chi neu berchennog blaenorol mewn perthynas â'r gorchymyn cau.

(adran 584A)

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y gorchymyn hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, neu am y darpariaethau y gellir, odanynt, ailadeiladu, ehangu neu wella'r eiddo, neu ei ddefnyddio at ddiben heblaw bod yn lle i fyw ynddo, neu am y posibilrwydd y gallwch gael iawndal neu gael eich ailgartrefu os daw'r gorchymyn i rym, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 20

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 289(2B)(a)

RHYBUDD O FWRIAD I GYNNWYS ADEILAD MEWN ARDAL GLIRIO

At o

1. Chi yw [rhydd-ddeiliad] [prydlesai] [morgeisiwr] [yr adeilad [preswyl] a elwir [ac sy'n cynnwys un neu ragor o fflatiau] [y fflat a elwir

yn yr adeilad preswyl a elwir ].

2. Mae'r adeilad [preswyl] mewn ardal y mae Cyngor yn bwriadu ei gyhoeddi'n ardal glirio o dan adran 289 Deddf Tai 1985.

3. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr adeilad [preswyl] [yn anaddas i bobl fyw ynddo fel y disgrifir yn Atodiad y rhybudd hwn] [yn beryglus neu'n niweidiol i iechyd trigolion yr ardal oherwydd [trefniant gwael yr adeiladau yn yr ardal] [[culni'r] [trefniant gwael y] strydoedd]].

4. Mae'r Cyngor, ar ôl rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A Deddf Tai 1985, yn fodlon mai'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu mewn perthynas â'r ardal yw dymchwel yr holl adeiladau yn yr ardal.

5. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r rhybudd hwn erbyn . Cyfeiriad y Cyngor ar gyfer cyflwyno sylwadau yw

[ATODIAD

Ym marn y Cyngor, [[mae'r adeilad preswyl] [mae rhai neu'r cyfan o'r fflatiau yn yr adeilad preswyl] yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(1) Deddf Tai 1985–

]

[ac] [[mae'r adeilad preswyl] [mae rhan o'r adeilad preswyl y tu allan i'r fflat(iau), sef ] yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(2) Deddf Tai 1985–

]

ac oherwydd y methiant hwnnw nid yw'r [adeilad preswyl] [fflat(iau)] yn rhesymol addas i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt].

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, oni ddywedir fel arall.)

**Ardaloedd clirio**

Mae ardal glirio yn ardal sydd i'w chlirio o bob adeilad.

(adran 289(1))

Mae adeilad preswyl yn adeilad sy'n annedd, yn dŷ mewn amlddaliadaeth neu'n dŷ sy'n cynnwys un neu ragor o fflatiau. Ymdrinir ag adeilad preswyl sy'n cynnwys un neu ragor o fflatiau fel adeilad sy'n anaddas i bobl fyw ynddo os yw rhai neu'r cyfan o'r fflatiau ynddo yn anaddas i bobl fyw ynddynt.

(adran 289(2) a 2(A))

**Diben y Rhybudd**

Diben y rhybudd hwn yw eich hysbysu mai bwriad y Cyngor yw cynnwys mewn ardal glirio yr adeilad y mae gennych ddiddordeb ynddo. Os gwnânt hynny, mae'n debygol y caiff eich adeilad ei ddymchwel.

(adran 289)

Mae'r rhybudd yn rhoi cyfle i chi roi gwybod i'r Cyngor am eich barn ar eu cynigion. Rhaid i'r Cyngor roi cyfnod rhesymol i chi wneud hynny, a beth bynnag, rhaid i'r dyddiad a bennir ym mharagraff 5 y rhybudd beidio â bod yn llai nag 28 niwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r rhybudd i chi.

(adran 289(2C))

**Penderfyniad y Cyngor**

Rhaid i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth yr holl sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac, yng ngoleuni'r rheiny, rhaid iddynt gymryd p'un bynnag o'r penderfyniadau canlynol sydd, yn eu barn hwy, yn briodol:

(a) cyhoeddi bod yr ardal, fel y cynigiwyd, yn ardal glirio;
(b) cyhoeddi bod yr ardal yn ardal glirio ond gan hepgor rhai adeiladau preswyl sy'n anaddas i bobl fyw ynddynt;
(c) penderfynu peidio â chyhoeddi bod yr ardal yn ardal glirio.

(adran 289(2F))

Os yw'r Cyngor yn penderfynu peidio â chyhoeddi ardal glirio, neu'n penderfynu hepgor o'r ardal adeilad preswyl sy'n anaddas i bobl fyw ynddo, rhaid iddynt weithredu mewn rhyw ffordd arall mewn perthynas â'r adeilad neu'r adeiladau preswyl sy'n anaddas (ac unrhyw fflat a gynhwysir ynddynt), gan roi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A y Ddeddf. Y dewis o ffyrdd o weithredu fydd cyflwyno rhybudd atgyweirio o dan adran 189 y Ddeddf, gan ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwaith ar yr adeilad neu'r fflat i beri iddo neu iddi fod yn addas i bobl fyw ynddo neu ynddi; gwneud gorchymyn cau o dan adran 264 y Ddeddf, gan rwystro'r adeilad neu'r fflat rhag cael ei (d)defnyddio er mwyn i bobl fyw ynddo neu ynddi, neu wneud gorchymyn dymchwel o dan adran 265 y Ddeddf, gan ei gwneud yn ofynnol dymchwel yr adeilad.

(adran 289(5A))

Os yw'r Cyngor yn gweithredu yn un o'r ffyrdd eraill hyn o weithredu mewn perthynas ag adeilad preswyl anaddas y mae gennych ddiddordeb ynddo, dylid cyflwyno i chi gopi o'r rhybudd neu'r gorchymyn perthnasol a dylech gael cyfle i apelio yn ei erbyn.

(adrannau 189 a 191; 268 a 269)

**Canlyniadau cyhoeddi ardal glirio**

Os yw'r Cyngor yn cyhoeddi bod ardal yn ardal glirio, rhaid iddynt ei diffinio ar fap a hepgor unrhyw adeilad sydd heb fod yn addas i bobl fyw ynddo neu sy'n beryglus neu'n niweidiol i iechyd.

(adran 289(3)(a))

Os yw'r Cyngor yn cyhoeddi ardal glirio, bydd yn ddyletswydd arnynt i sicrhau clirio'r ardal drwy brynu'r tir a'r adeiladau yn yr ardal. Gallant brynu gyda chytundeb perchennog y diddordeb dan sylw neu, os na cheir cytundeb, gallant gyflwyno gorchymyn prynu gorfodol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Os cadarnheir gorchymyn o'r fath, bydd y Cyngor yn gallu prynu diddordeb heb gytundeb. Nid oes rhaid i'r Cyngor eich hysbysu eu bod wedi cyhoeddi ardal glirio, ond rhaid iddynt gyflwyno rhybudd i berchnogion, prydleseion a rhai o ddeiliaid y tir y gwnânt orchymyn prynu gorfodol mewn perthynas ag ef, er mwyn rhoi cyfle i'r personau hynny wrthwynebu eu cynigion.

(adran 290(1) a (3)
ac adrannau 12 a 13
Deddf Meddiannu
Tir 1981)

**Iawndal ac ailgartrefu**

Os yw'r Cyngor yn cyhoeddi ardal glirio ac os awdurdodir hwy i brynu'r eiddo'n orfodol, bydd gan bersonau sydd â diddordeb yn yr eiddo yr hawl i gael iawndal a asesir yn unol â Deddf Iawndal Tir 1961. Fel rheol, dylai'r iawndal sy'n daladwy fod yn gyfartal â gwerth y diddordeb a brynir, a hynny ar y farchnad agored. Os na ellir cytuno â'r Cyngor ynglŷn â maint yr iawndal sy'n daladwy, gellir cyfeirio'r mater at y Tribiwnlys Tiroedd, sef corff annibynnol a benodwyd i ymdrin ag anghydfodau o'r fath.

Os yw'r Cyngor yn cyhoeddi ardal glirio ac yn prynu'r eiddo, gall deiliaid sy'n gorfod gadael yr eiddo oherwydd y pryniant fod â hawl i daliad colli cartref neu daliad aflonyddu oddi wrth y Cyngor o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973. Gall fod ganddynt hawl hefyd i gael eu hailgartrefu gan y Cyngor os na allant fel arall gael llety preswyl addas arall ar delerau rhesymol.

Bydd y Cyngor yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y materion hyn os prynant yr eiddo.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 21

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 300

RHYBUDD O BENDERFYNIAD I BRYNU EIDDO SY'N AGORED I GAEL EI DDYMCHWEL NEU EI GAU

At o

1. Chi yw [perchennog] [morgeisiai] [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] [yr adeilad] a elwir

2. Mae Cyngor yn fodlon nad yw'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau) a elwir yn yr adeilad yn addas i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt] fel y disgrifir yn Atodiad y rhybudd hwn.

3. Mae'r Cyngor, ar ôl rhoi sylw i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 604A Deddf Tai 1985, yn fodlon mai'r ffordd fwyaf boddhaol o weithredu, yn ddarostyngedig i'r mater y cyfeirir ato ym mharagraff 4 isod, fyddai gwneud [gorchymyn cau o dan adran 264] [gorchymyn dymchwel o dan adran 265] y Ddeddf mewn perthynas â'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad].

4. Mae'n ymddangos i'r Cyngor, er hynny, fod [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] [yr adeilad] yn darparu, neu y gellir gwneud iddo ddarparu, llety o safon sy'n ddigonol am y tro, ac felly mae'r Cyngor wedi penderfynu prynu'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [adeilad] o dan adran 300 y Ddeddf yn lle gorchymyn ei [gau] [ddymchwel].

## ATODIAD

Ym marn y Cyngor [mae'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau)] yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(1) y Ddeddf–

]

[ac] [mae] [yr adeilad] [rhan o'r adeilad y tu allan i'r fflat(iau), sef ] yn methu â bodloni gofyniad/gofynion canlynol adran 604(2) y Ddeddf–

]

ac, oherwydd y methiant hwnnw, nid yw'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau)] yn rhesymol addas i'w [feddiannu] [meddiannu].

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Yr hawl i apelio

Os nad ydych yn cytuno â'r rhybudd hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

(adran 269(1))

Nid oes gennych yr hawl apelio os ydych yn meddiannu'r eiddo o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd.

(adran 269(2))

### Gweithredu'r rhybudd

Os nad ydych yn apelio, daw'r rhybudd hwn i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno i chi.

(adran 268(2))

Os oes apêl ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r rhybudd, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r rhybudd i rym tan i'r Llys Apêl ei gadarnhau.

(adran 269(6))

**Effaith y rhybudd**

Ar unrhyw adeg ar ôl i'r rhybudd hwn ddod i rym, gall y Cyngor brynu'r eiddo drwy gytundeb neu gallant gyflwyno gorchymyn prynu gorfodol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Os cadarnheir gorchymyn o'r fath, bydd y Cyngor yn gallu prynu'r eiddo heb gytundeb.

(adran 300(3))

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r gorchymyn hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Iawndal ac ailgartrefu**

Os awdurdodir y Cyngor i brynu'r eiddo'n orfodol, bydd gan bersonau sydd â diddordeb yn yr eiddo yr hawl i gael iawndal a asesir yn unol â Deddf Iawndal Tir 1961. Fel rheol, dylai'r iawndal sy'n daladwy fod yn gyfartal â gwerth y diddordeb a brynir, a hynny ar y farchnad agored. Os na ellir cytuno â'r Cyngor ynglŷn â maint yr iawndal sy'n daladwy, gellir cyfeirio'r mater at y Tribiwnlys Tiroedd, sef corff annibynnol a benodwyd i ymdrin ag anghydfodau o'r fath.

Gall deiliaid sy'n gorfod gadael yr eiddo am fod y Cyngor yn ei brynu fod â hawl i daliad colli cartref neu daliad aflonyddu oddi wrth y Cyngor o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973. Gall fod ganddynt hawl hefyd i gael eu hailgartrefu gan y Cyngor os na allant, fel arall, gael llety preswyl addas arall ar delerau rhesymol. Gellir cael manylion pellach oddi wrth y Cyngor.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 22

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 310

TYSTYSGRIF ADDASRWYDD SY'N DEILLIO O WELLIANNAU NEU NEWIDADAU GAN Y PERCHENNOG

1. O dan adran 310(1) Deddf Tai 1985, bu i berchennog [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] [yr adeilad sy'n cynnwys un neu ragor o fflatiau] a elwir

gyflwyno i'r Cyngor–

(a) rhestr o waith arfaethedig i wella neu newid fframwaith [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] [yr adeilad], a

(b) cais ysgrifenedig i'r Cyngor ei hysbysu a fyddai'r [annedd] [tŷ mewn amlddaliadaeth] [fflat(iau) yn yr adeilad], ar ôl cyflawni'r gwaith hwnnw, neu'r gwaith hwnnw ynghyd â gwaith ychwanegol, yn addas, yn eu barn hwy, i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt] ac a fyddent, o gael gofal a chynhaliaeth resymol, yn aros yn addas felly am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf.

2. Yn unol ag adran 310(2) y Ddeddf, fe ystyriodd y Cyngor y rhestr o waith arfaethedig a bu iddynt hysbysu'r perchennog eu bod o'r farn honno [ac nad oedd angen gwaith ychwanegol] [a rhoesant iddo restr o waith ychwanegol a oedd, fe ymddangosai iddynt hwy, yn ofynnol].

3. Cyflawnwyd y gwaith a bennwyd yn y rhestr [ynghyd â'r gwaith ychwanegol a bennwyd yn y rhestr a roesant] i safon sy'n bodloni'r Cyngor.

4. Mae'r Cyngor, o dan adran 310(3) y Ddeddf, yn tystio bod [yr annedd] [y tŷ mewn amlddaliadaeth] [y fflat(iau) yn yr adeilad] yn addas i bobl fyw [ynddo] [ynddi] [ynddynt] ac y byddant yn aros yn addas felly am gyfnod o            o flynyddoedd o ddyddiad y dystysgrif hon.

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Hyd y cyfnod a bennwyd**

Rhaid i'r cyfnod a bennwyd ym mharagraff 4 y dystysgrif hon beidio â bod yn llai na 5 mlynedd a pheidio â bod yn fwy na 15 mlynedd.

(adran 310(3))

**Effaith y dystysgrif**

Yn ystod y cyfnod a bennwyd–

(a) rhaid peidio â gweithredu mewn perthynas â'r eiddo o dan ddarpariaethau Rhan IX y Ddeddf (clirio slymiau) ynglŷn â dymchwel, cau neu brynu eiddo sy'n anaddas, a

(b) rhaid peidio â gweithredu o dan ddarpariaethau'r Rhan honno sy'n ymwneud ag ardaloedd clirio er mwyn dymchwel yr eiddo am ei fod yn anaddas i bobl fyw ynddo.

(adran 310(4)

# FFURFLEN 23

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 330

RHYBUDD O DDIDDYMU TRWYDDED SY'N AWDURDODI MWY NA'RNIFER A GANIATEIR I GYSGU MEWN ANNEDD

At , deiliad yr eiddo a elwir

("yr annedd").

1. Ar bu i Gyngor roi trwydded o dan adran 330 Deddf Tai 1985 a'ch awdurdododd i ganiatáu i o bersonau yn fwy na'r nifer a ganiateir o dan adran 326 y Ddeddf gysgu yn yr annedd.

2. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu hewyllys o dan is-adran (4) adran 330, yn rhoi rhybudd i chi fod y drwydded wedi ei dileu ac y bydd yn peidio â bod mewn grym ar ddiwedd y cyfnod o o ddyddiad cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 11 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Hyd y cyfnod a bennwyd**

Rhaid i'r cyfnod a bennwyd ym mharagraff 2 y rhybudd hwn, y bydd y drwydded yn peidio â bod mewn grym ar ei ddiwedd, fod yn fis o leiaf.

(adran 330(4))

**Cosbau**

Os ydych yn caniatáu i fwy na'r nifer a ganiateir, sef , gysgu yn yr annedd ar ôl i'r drwydded beidio â bod mewn grym, mae'n bosibl y byddwch yn cyflawni'r drosedd o achosi neu ganiatáu gordyrru yn yr annedd. Gellir cosbi'r drosedd honno yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach sydd heb fod yn fwy na degfed ran o'r lefel honno mewn perthynas â phob dydd y bydd y drosedd yn parhau ar ôl eich cael yn euog.

(adran 327)

**Cyflwyno i landlord**

Os yw'r annedd wedi ei osod i chi, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno copi o'r rhybudd hwn i'ch landlord, a rhaid gwneud hynny cyn pen 7 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

(adran 330(6))

**Trosedd gan landlord**

O dan rai amgylchiadau, gall landlord y deiliad hefyd fod yn euog o'r drosedd o achosi neu ganiatáu gordyrru'r annedd os yw'r deiliad yn achosi neu'n caniatáu ei ordyrru.

(adran 331)

## FFURFLEN 24

### DEDDF TAI 1985

### ADRAN 331

RHYBUDD I LANDLORD FOD GORDYRRU MEWN ANNEDD

At

[landlord] [asiant landlord] yr eiddo a elwir

("yr annedd").

1. Mae Cyngor , drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 331(2)(c) Deddf Tai 1985, yn cyflwyno rhybudd i chi fod gordyrru yn yr annedd o dan amgylchiadau sy'n peri bod y deiliad yn euog o drosedd.

2. Yr amgylchiadau yw bod–

[nifer y personau sy'n cysgu yn yr annedd a nifer yr ystafelloedd sydd ar gael fel llety cysgu cyfryw nes bod rhaid, gan anwybyddu plant o dan 10 oed, i ddau berson o ryw gwahanol sydd heb fod yn byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig gysgu yn yr un ystafell, ac felly'n groes i'r safon a bennwyd yn adran 325 y Ddeddf ar gyfer yr ystafell] [nifer y personau sy'n cysgu yn yr annedd yn uwch na'r nifer a ganiateir, sef o bersonau, ac felly'n groes i'r safon ar gyfer gofod a bennwyd yn adran 326 y Ddeddf].

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 11 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Effaith y rhybudd**

Cymerir bod landlord annedd lle ceir gordyrru yn achosi neu'n caniatáu'r gordyrru hwnnw os yw ef, ar ôl i'r Cyngor gyflwyno'r rhybudd hwn iddo ef neu ei asiant, yn methu â chymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn lleddfu'r gordyrru, gan gynnwys, os oes angen, achos cyfreithiol er mwyn cael meddiant o'r annedd.

(adran 331(2)(c))

**Cosbau**

Mae landlord annedd sy'n achosi neu'n caniatáu gordyrru yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach sydd heb fod yn uwch na degfed ran o'r lefel honno mewn perthynas â phob dydd y bydd y drosedd yn parhau ar ôl ei gael yn euog.

(adran 331(1) a (3))

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 25

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 335

RHYBUDD SY'N MYNNU GWYBODAETH AM BERSONAU SY'N CYSGU MEWN ANNEDD

At

deiliad yr eiddo a elwir

("yr annedd").

Mae Cyngor , drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 335 Deddf Tai 1985, yn ei gwneud yn ofynnol i chi roi datganiad iddynt o nifer, oedrannau a rhyw'r personau sy'n cysgu yn yr annedd.

Rhaid i'r datganiad fod yn ysgrifenedig a rhaid ei adael yn neu ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad hwnnw, cyn pen 14 diwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

[Dyddiad a llofnod]

NODYN

Mae unrhyw berson sy'n methu â rhoi'r wybodaeth ofynnol neu sy'n cyflwyno datganiad y mae'n gwybod ei fod yn ffug mewn perthynas ag unrhyw fanylion materol yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol.

(Deddf Tai 1985, adran 335(2))

# FFURFLEN 26

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 338

RHYBUDD I DDEILIAD I LEDDFU GORDYRRU

At

deiliad yr eiddo a elwir

("yr annedd").

1. Mae'n ymddangos i Gyngor fod gordyrru yn yr annedd o dan amgylchiadau sy'n peri eich bod yn euog o drosedd.

2. Yr amgylchiadau yw bod [nifer y personau sy'n cysgu yn yr annedd a nifer yr ystafelloedd sydd ar gael fel llety cysgu cyfryw nes bod rhaid, gan anwybyddu plant o dan 10 oed, i ddau berson o ryw gwahanol sydd heb fod yn byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig gysgu yn yr un ystafell, ac felly'n groes i'r safon a bennwyd yn adran 325 y Ddeddf ar gyfer yr ystafell] [nifer y personau sy'n cysgu yn yr annedd yn uwch na'r nifer a ganiateir, sef o bersonau, ac felly'n groes i'r safon ar gyfer gofod a bennwyd yn adran 326 y Ddeddf].

3. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 338 y Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i chi leddfu'r gordyrru yn yr annedd cyn pen 14 diwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Deddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 11 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Effaith y rhybudd

Os na leddfir y gordyrru, mae'n bosibl y gall y Cyngor wneud cais i'r llys sirol am roi meddiant gwag i landlord yr annedd, o fewn y cyfnod hwnnw, na fydd yn llai na 14 diwrnod nac yn fwy nag 28 niwrnod, fel y gall y llys benderfynu.

(adran 338(2))

### Cosbau

Os ydych yn achosi neu'n caniatáu gordyrru yn yr annedd, yr ydych yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach nad yw'n uwch na degfed ran o'r lefel honno mewn perthynas â phob dydd y bydd y drosedd yn parhau ar ôl eich cael yn euog.

(adran 327)

### Cyngor

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 27

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 354(3)

RHYBUDD O FWRIAD I GYFYNGU DRWY GYFARWYDDYD AR NIFER Y DEILIAID MEWN [TŶ][RHAN O DŶ] MEWN AMLDDALIADAETH

At o

[perchennog] [prydlesai] y tŷ mewn amlddaliadaeth a elwir

("y tŷ").

1. Mae Cyngor , o dan adran 354 Deddf Tai 1985, yn cyflwyno rhybudd eu bod yn bwriadu rhoi cyfarwyddyd a fydd yn gymwys i'r [tŷ] [rhan o'r tŷ sy'n cynnwys ] y terfyn a bennir yn yr Atodiad isod, sef nifer uchaf [yr unigolion] [a'r] [y] [teuluoedd] a ddylai, ym marn y Cyngor a chan roi sylw i ofynion adran 352(1A) y Ddeddf, feddiannu'r [tŷ] [rhan o'r tŷ] yn [ei gyflwr] [ei chyflwr] presennol.

2. Diben y cyfyngiad yw [rhwystro] [cywiro] sefyllfa sy'n galw am gyflwyno [rhybudd] [rhybudd pellach] o dan adran 352 y Ddeddf.

3. Caiff sylwadau ynglŷn â'r cynnig a ddisgrifir ym mharagraff 2 uchod ac a gyflwynir cyn eu cymryd i ystyriaeth. Cyfeiriad y Cyngor ar gyfer cyflwyno sylwadau iddynt yw

.]*

*I'w hepgor o'r copi o'r rhybudd a gaiff ei roi yn yr eiddo.

## ATODIAD

[Uchafrif yr unigolion ar gyfer yr eiddo ]
[Uchafrif y teuluoedd ar gyfer yr eiddo ]

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Tŷ mewn amlddaliadaeth

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.

(adran 345)

### Rhybudd o dan adran 352

Os yw tŷ mewn amlddaliadaeth yn methu, ym marn y Cyngor, â bodloni un neu ragor o ofynion adran 352(1A) fel nad yw'n rhesymol addas i'w feddiannu gan nifer yr unigolion neu'r teuluoedd sy'n cael llety yno am y tro, gallant gyflwyno rhybudd sy'n ei gwneud yn ofynnol gwneud gwaith a fydd, yn eu barn hwy, yn gwneud y tŷ yn rhesymol addas i'r nifer hwnnw, neu unrhyw nifer llai ag y gellir ei bennu, fyw ynddo.

(adran 352)

### Effaith y cyfarwyddyd (os caiff ei roi)

Os rhoir y cyfarwyddyd arfaethedig, dyletswydd y deiliad am y tro, ac unrhyw berson arall sydd, am y tro, â hawl neu awdurdod i ganiatáu i unigolion ddod i fyw yn yr eiddo, yw peidio â chaniatáu i nifer yr unigolion neu'r teuluoedd sy'n meddiannu'r eiddo godi i nifer uwchlaw'r terfyn a bennir yn y cyfarwyddyd ac, os yw uwchlaw'r nifer hwnnw am y tro, i beidio â chaniatáu iddo godi ymhellach. Mae person sy'n methu'n fwriadol â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(adran 355)

# FFURFLEN 28

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 354(1)

CYFARWYDDYD I GYFYNGU AR NIFER Y TRIGOLION MEWN [TŶ][RHAN O DŶ] MEWN AMLDDALIADAETH

1. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys i'r eiddo [a elwir] [sy'n cynnwys]

2. Mae'r eiddo'n [dŷ] [rhan o dŷ] sy'n dŷ mewn amlddaliadaeth.

3. Mae Cyngor , er mwyn [rhwystro] [cywiro] sefyllfa sy'n galw am gyflwyno [rhybudd] [rhybudd pellach] o dan adran 352 Deddf Tai 1985, drwy ymarfer ei bwerau o dan adran 354 y Ddeddf–

(a) yn pennu fel terfyn ar gyfer yr eiddo y nifer a bennir yn yr Atodiad isod, sef, yn eu barn hwy, y nifer uchaf o [unigolion] [deuluoedd] [a theuluoedd] a ddylai, mewn perthynas â'r gofynion a nodir yn adran 352(1A), feddiannu'r eiddo yn ei gyflwr presennol, a

(b) yn cyfarwyddo y bydd y terfyn a bennir yn yr Atodiad yn gymwys i'r eiddo.

## ATODIAD

[Uchafrif yr unigolion ar gyfer yr eiddo ].
[Uchafrif y teuluoedd ar gyfer yr eiddo ].

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

**Tŷ mewn amlddaliadaeth**

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.

(adran 345)

**Effaith y cyfarwyddyd**

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ei gwneud yn ddyletswydd ar–

(a) ddeiliad yr eiddo am y tro, a

(b) unrhyw berson arall sydd am y tro â hawl neu awdurdod i ganiatáu i unigolion ddod i fyw yn yr eiddo,

i beidio â chaniatáu i nifer yr unigolion neu'r teuluoedd sy'n byw yn yr eiddo godi i nifer uwchlaw'r terfyn a bennir yn Atodiad y cyfarwyddyd neu, os ydyw uwchlaw'r nifer hwnnw am y tro, i beidio â chaniatáu iddo godi ymhellach.

(adran 355(1))

**Cosb**

Bydd person sy'n methu'n fwriadol â chydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifiwyd uchod o dan "Effaith y cyfarwyddyd" yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(adran 355(2))

**Pŵer i alw am wybodaeth**

Tra bo'r cyfarwyddyd mewn grym, mae gan y Cyngor y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddeiliad yr eiddo gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig iddynt am ddaliadaeth yr eiddo.

(adran 356)

**Diddymu neu amrywio'r cyfarwyddyd**

Gall unrhyw un sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ dan sylw (e.e. y rhydd-ddeiliad, prydleswr neu denant, gan gynnwys tenant statudol o dan y Deddfau Rhenti) wneud cais i'r Cyngor ddiddymu'r cyfarwyddyd neu ei amrywio er mwyn caniatáu i ragor o bobl fyw yn yr eiddo, a gall y Cyngor ei ddiddymu neu ei amrywio mewn perthynas ag unrhyw waith a all fod wedi ei gyflawni yn y tŷ neu unrhyw newid arall yn yr amgylchiadau.

Os yw'r Cyngor yn gwrthod cais o'r fath neu os nad ydynt, cyn pen 35 niwrnod (neu unrhyw gyfnod hwy y gall yr ymgeisydd ei ganiatáu yn ysgrifenedig), yn hysbysu'r ymgeisydd o'u penderfyniad, gall yr ymgeisydd apelio i'r llys sirol, a all ddiddymu neu amrywio'r cyfarwyddyd. (adran 357)

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y cyfarwyddyd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 29

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 356

RHYBUDD SY'N EI GWNEUD YN OFYNNOL CYFLWYNO GWYBODAETH AR ÔL CYFARWYDDYDI GYFYNGU AR NIFER Y TRIGOLION MEWN TŶ MEWN AMLDDALIADAETH

, deiliad yr eiddo [a elwir] [sy'n cynnwys]

1. Bu i Gyngor ar roi cyfarwyddyd o dan adran 354 Deddf Tai 1985 yn cyfyngu ar nifer y trigolion yn yr eiddo, ac mae'r cyfarwyddyd yn dal mewn grym.

2. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 356 y Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno datganiad ysgrifenedig iddynt gan roi'r wybodaeth ganlynol–

(a) faint o unigolion sy'n byw yn yr eiddo ar ;

[(b) faint o deuluoedd y mae'r unigolion hynny'n perthyn iddynt;]

[(c) enwau'r unigolion hynny [ac enw penteulu pob un o'r teuluoedd hynny];]

[(d) pa ystafelloedd a ddefnyddir gan [yr unigolion] [a'r] [y] [teuluoedd] hynny].

3. Dylid gadael y datganiad yn neu ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad hwnnw cyn pen 7 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

[Dyddiad a llofnod]

NODYN

Os nad ydych yn rhoi i'r Cyngor y wybodaeth a fynnir gan y rhybudd hwn, neu os rhowch ddatganiad y gwyddoch ei fod yn ffug mewn perthynas â manylyn materol, byddwch yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

(Deddf Tai 1985, adran 356(2))

# FFURFLEN 30

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 357

DIDDYMU NEU AMRYWIO CYFARWYDDYD I GYFYNGU AR NIFER Y TRIGOLION MEWN[TŶ] [RHAN O DŶ] MEWN AMLDDALIADAETH

1. Bu i Gyngor ar roi cyfarwyddyd o dan adran 354 Deddf Tai 1985 yn cyfyngu ar nifer y trigolion yn yr eiddo [a elwir] [sy'n cynnwys] .

2. Mae person sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ dan sylw wedi gwneud cais i'r Cyngor [ddiddymu] [amrywio] y cyfarwyddyd.

3. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 357 y Ddeddf, drwy hyn [yn diddymu'r cyfarwyddyd] [yn amrywio'r cyfarwyddyd drwy osod yr Atodiad isod yn lle Atodiad y cyfarwyddyd.

ATODIAD

[Uchafrif yr unigolion ar gyfer yr eiddo ]
[Uchafrif y teuluoedd ar gyfer yr eiddo ]]

[Dyddiad a llofnod]

# FFURFLEN 31

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 358(2)

RHYBUDD O FWRIAD I GYFLWYNO RHYBUDD GORDYRRU MEWN PERTHYNAS ÅTHŶ MEWN AMLDDALIADAETH

At o
[deiliad] [person sy'n ymddangos fel petai'n rheoli] yr eiddo a elwir
sy'n dŷ mewn amlddaliadaeth.

1. Mae'n ymddangos i Gyngor fod gormod o bersonau [yn cael] [yn debygol o gael] eu lletya yn yr eiddo, mewn perthynas â'r ystafelloedd sydd ar gael.

2. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 358 Deddf Tai 1985, yn bwriadu cyflwyno rhybudd gordyrru a fydd yn cymhwyso at yr eiddo y terfynau ar ddaliadaeth a nodir yn yr Atodiadau isod.

3. Mae Atodiad 1 isod yn dweud faint, ym marn y Cyngor, yw uchafrif y personau y mae pob ystafell a ddisgrifir yn addas i'w meddiannu fel llety cysgu ar unrhyw adeg benodol [a'r uchafrif arbennig sy'n gymwys pan fo rhai neu bob un o'r personau sy'n meddiannu'r ystafell o dan yr oedran a bennir].

4. Mae Atodiad 2 isod yn pennu pob ystafell sydd, ym marn y Cyngor, yn anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu.

5. Caiff sylwadau ar y cynnig a ddisgrifir ym mharagraff 2 ac a gyflwynir cyn
eu cymryd i ystyriaeth. Cyfeiriad y Cyngor ar gyfer cyflwyno sylwadau iddynt yw

## ATODIAD 1

Yr ystafelloedd sy'n anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu gan fwy na nifer y personau a bennir

## ATODIAD 2

Ystafelloedd sy'n anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Tŷ mewn amlddaliadaeth

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.

(adran 345)

### Effaith y rhybudd gordyrru (os cyflwynir ef)

Os cyflwynir y rhybudd gordyrru arfaethedig, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad yr eiddo, neu'r person sy'n rheoli'r eiddo, neu'r ddau, naill ai–

(a) i ymatal rhag caniatáu'n fwriadol i ystafell gael ei meddiannu fel llety cysgu ac eithrio yn unol â'r rhybudd neu rhag caniatáu'n fwriadol i gymaint o bersonau feddiannu'r eiddo fel llety cysgu nes nad oes modd osgoi sefyllfa lle mae pobl o'r ddau ryw a thros 12 oed, sydd heb fod yn byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig, yn cysgu yn yr un ystafell; neu

(b) i ymatal rhag caniatáu'n fwriadol i ystafell gael ei meddiannu gan berson nad oedd yn byw yn yr eiddo yn union cyn cyflwyno'r rhybudd ac eithrio'n unol â'r rhybudd neu rhag caniatáu i berson o'r fath feddiannu'r rhan honno o'r eiddo fel llety cysgu os nad yw hynny'n bosibl heb i bobl o'r ddau ryw a thros 12 oed, sydd heb fod yn byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig, gysgu yn yr un ystafell.

(adrannau 359–361)

### Cosb

Mae unrhyw berson sy'n anufuddhau i rybudd gordyrru yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(adran 358(4))

# FFURFLEN 32

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 358(1)

RHYBUDD GORDYRRU MEWN PERTHYNAS Å THŶ MEWN AMLDDALIADAETH

At o
[deiliad] [y person sy'n rheoli] yr eiddo a elwir

1. Mae'n ymddangos i Gyngor fod gormod o bersonau [yn cael] [yn debygol o gael] eu lletya yn yr adeilad mewn perthynas â'r ystafelloedd sydd ar gael.

2. Ym marn y Cyngor–
   (a) nid yw'r ystafelloedd yn yr eiddo a ddisgrifir yn Atodiad 1 isod yn addas i'w meddiannu fel llety cysgu ar unrhyw adeg benodol gan fwy na nifer y personau a bennir yn yr Atodiad mewn perthynas â phob ystafell [neu gan yr uchafrif arbennig a bennir lle bo rhai neu bob un o'r personau sy'n meddiannu'r ystafell o dan yr oedran a bennir], a
   (b) mae'r ystafelloedd yn yr eiddo a ddisgrifir yn Atodiad 2 yn anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu.

3. Rhaid i chi beidio â chaniatáu'n fwriadol–
   (a) i ystafell gael ei meddiannu fel llety cysgu [gan berson nad oedd yn byw yn yr eiddo yn union cyn cyflwyno'r rhybudd hwn ("preswylydd newydd")] ac eithrio yn unol â'r rhybudd hwn, neu
   (b) [i gymaint o bersonau feddiannu'r eiddo fel llety cysgu nes nad oes modd osgoi] [i breswylydd newydd feddiannu unrhyw ran o'r eiddo fel llety cysgu os nad yw hynny'n bosibl heb greu] sefyllfa lle mae personau o'r ddau ryw, nad ydynt yn byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig, yn cysgu yn yr un ystafell.

At y dibenion hyn–
   (i) rhaid peidio â chyfrif plant sydd o dan 12 oed, a
   (ii) fe gymerir yn ganiataol bod y personau sy'n meddiannu'r eiddo [unrhyw ran o'r eiddo] fel llety cysgu yn cysgu'n unig mewn ystafelloedd y pennir uchafrif ar eu cyfer gan y rhybudd hwn ac nad oes mwy na'r uchafrif a bennir ar gyfer pob ystafell yn cysgu yno.

## ATODIAD 1

Yr ystafelloedd sy'n anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu gan fwy na nifer y personau a bennir

## ATODIAD 2

Ystafelloedd sy'n anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985.)

**Yr hawl i apelio**

Os nad ydych yn cytuno â'r rhybudd hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd i chi. Gall y llys gadarnhau, diddymu neu amrywio'r rhybudd fel y gwêl yn dda.

(adran 362(1))

**Gweithredu'r rhybudd**

Os nad oes apêl, daw'r rhybudd hwn i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno.
(adran 358(3))

Os oes apêl ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r rhybudd, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r rhybudd i rym tan i'r Llys Apêl ei chadarnhau.
(adran 362(2))

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cosb**

Mae anufuddhau i'r rhybudd hwn yn drosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.
(adran 358(4))

**Diddymu neu amrywio'r rhybudd**

Gall person sydd ag ystad neu ddiddordeb yn yr eiddo (fel rheol, rhydd-ddeiliad, neu brydlesai/ tenant, gan gynnwys tenant statudol o dan y Deddfau Rhenti), wneud cais i'r Cyngor ddiddymu'r rhybudd hwn neu ei amrywio er mwyn caniatáu i ragor o bobl gael eu lletya yn yr eiddo. Os yw'r Cyngor yn gwrthod y cais, neu os nad ydynt yn hysbysu'r ymgeisydd o'u penderfyniad cyn pen 35 niwrnod ar ôl gwneud y cais (neu unrhyw gyfnod pellach y gall yr ymgeisydd ei ganiatáu yn ysgrifenedig), gall apelio i'r llys sirol a all, ei hun, ddiddymu neu amrywio'r rhybudd.
(adran 363)

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 33

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 363

DIDDYMU NEU AMRYWIO RHYBUDD GORDYRRU MEWN PERTH YNAS Â THŶ MEWN AMLDDALIADAETH

1. Bu i Gyngor ar gyflwyno rhybudd gordyrru o dan adran 358 Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r eiddo a elwir

2. Mae person sydd ag ystad neu ddiddordeb yn yr eiddo wedi gwneud cais i'r Cyngor [ddiddymu'r] [amrywio'r] rhybudd.

3. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 363 y Ddeddf, drwy hyn [yn diddymu'r rhybudd] [ yn amrywio'r rhybudd] er mwyn caniatáu i ragor o bobl gael eu lletya yn yr eiddo drwy osod yn lle [Atodiad 1] [ac] [Atodiad 2] y rhybudd yr Atodiad[au] canlynol–

[ATODIAD 1

Yr ystafelloedd sy'n anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu gan fwy na nifer y personau a bennir

]

[ATODIAD 2

Ystafelloedd sy'n anaddas i'w meddiannu fel llety cysgu

]]

[Dyddiad a llofnod]

# FFURFLEN 34

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 364

RHYBUDD SY'N EI GWNEUD YN OFYNNOL CYFLWYNO GWYBODAETH AR ÔL CYFLWYNO RHYBUDD GORDYRRU MEWNPERTHYNAS Â THŶ MEWN AMLDDALIADAETH

At , deiliad yr eiddo a elwir

1. Bu i Gyngor ar gyflwyno rhybudd gordyrru o dan adran 358 Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r eiddo, ac mae'r rhybudd hwnnw'n dal mewn grym.

2. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 364 y Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno iddynt ddatganiad ysgrifenedig sy'n rhoi'r wybodaeth ganlynol–

(a) nifer yr unigolion sy'n meddiannu unrhyw ran o'r eiddo fel llety cysgu ar ;

[(b) nifer y teuluoedd y mae'r unigolion hynny'n perthyn iddynt;]

[(c) enwau'r unigolion [ac enw penteulu pob un o'r teuluoedd hynny];]

[(d) yr ystafelloedd a ddefnyddir gan [yr unigolion] [a'r] [y] [teuluoedd] hynny].

3. Dylid gadael y datganiad yn neu ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad hwn cyn pen 7 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

[Dyddiad a llofnod]

NODYN

Os ydych yn methu'n fwriadol â rhoi i'r Cyngor y wybodaeth a fynnir gan y rhybudd hwn, neu os cyflwynwch ddatganiad y gwyddoch ei fod yn ffug mewn perthynas â manylyn materol, byddwch yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

(Deddf Tai 1985, adran 364(2))

# FFURFLEN 35

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 368

GORCHYMYN CAU AR GYFER RHAN O DŶ MEWN AMLDDALIADAETH

1. Mae gan Gyngor y pŵer i gyflwyno rhybudd o dan adran 352(1) Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r tŷ mewn amlddaliadaeth a elwir ("y tŷ"), [a'r rheswm] [ac un o'r rhesymau] y mae'r pŵer yn codi o'i herwydd yw methu â bodloni'r gofyniad yn adran 352(1A)(d) y Ddeddf, sef bod cyfleuster digonol ar gyfer dianc rhag tân mewn perthynas â'r tŷ.

2. Mae'n ymddangos i'r Cyngor y byddai'r cyfleuster a ddarparwyd yn y tŷ ar gyfer dianc rhag tân yn ddigonol pe na ddefnyddid y rhan o'r tŷ sy'n cynnwys ("y rhan") i bobl fyw ynddi.

3. [Nid yw'r Cyngor wedi derbyn ymrwymiad o dan adran 368(2) y Deddf na ddefnyddir y rhan i bobl fyw ynddi heb ganiatâd y Cyngor.]

[Derbyniodd y Cyngor ymrwymiad o dan adran 368(2) y Ddeddf na ddefnyddir y rhan i bobl fyw ynddi heb ganiatâd y Cyngor ac mae'r ymrwymiad hwnnw wedi ei dorri.]

4. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ag Awdurdod Tân , fel sy'n ofynnol o dan adran 365(3) y Ddeddf.

5. O dan adran 368(4) y Ddeddf, mae'r Cyngor yn gwahardd defnyddio'r rhan at unrhyw ddiben na chymeradwywyd mohono gan y Cyngor [, ac yn cymeradwyo'r diben(ion) canlynol:–

].

[Dyddiad a dilysiad]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Atodiad 9 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.)

### Tŷ mewn amlddaliadaeth

Mae tŷ mewn amlddaliadaeth yn dŷ (gan gynnwys unrhyw ran o adeilad, megis fflat, a godwyd yn wreiddiol neu a addaswyd ar ôl hynny i un teulu fyw ynddi) y mae personau nad ydynt yn ffurfio un teulu yn byw ynddo.

(adran 345)

### Rhybudd o dan adran 352

Os yw tŷ mewn amlddaliadaeth yn methu, ym marn y Cyngor, â bodloni un neu ragor o ofynion adran 352(1A) fel nad yw'n rhesymol addas i'w feddiannu gan nifer yr unigolion neu'r teuluoedd sy'n cael llety yno am y tro, gallant gyflwyno rhybudd sy'n ei gwneud yn ofynnol gwneud gwaith a fydd, yn eu barn hwy, yn gwneud y tŷ yn rhesymol addas i'r nifer hwnnw, neu unrhyw nifer llai ag y gellir ei bennu, fyw ynddo.

(adran 352)

### Yr hawl i apelio

Os nad ydych yn cytuno â'r gorchymyn hwn, gallwch apelio yn ei erbyn i'r llys sirol ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r gorchymyn i chi.

(adran 269(2))

Nid oes gennych yr hawl hon i apelio os ydych yn meddiannu'r rhan o'r tŷ dan sylw o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd.

(adran 269(2))

**Gweithredu'r gorchymyn**

Os nad ydych yn apelio, daw'r gorchymyn hwn i rym ar ddiwedd 21 niwrnod ar ôl dyddiad ei gyflwyno i chi.

(adran 268(2))

Os oes apêl ac os yw'r llys sirol yn cadarnhau'r gorchymyn, ni ddaw i rym tan i'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Llys Apêl ddod i ben heb i apêl o'r fath gael ei chyflwyno. Os cyflwynir apêl bellach o'r fath, ni ddaw'r gorchymyn i rym tan i'r Llys Apêl ei gadarnhau.

(adran 269(6))

**Defnyddio'r eiddo mewn ffordd arall**

Gallwch ofyn i'r Cyngor adael i chi ddefnyddio'r eiddo at ddiben heblaw bod pobl yn byw ynddo ac, os byddant yn gwrthod hynny'n afresymol, gallwch apelio i'r llys sirol cyn pen 21 niwrnod ar ôl eu penderfyniad i wrthod.

(adran 267(3))

**Gwneud tŷ yn addas**

Os bodlonir y Cyngor ar ryw ddyddiad yn y dyfodol fod y cyfleuster a ddarperir yn y tŷ ar gyfer dianc rhag tân yn ddigonol (oherwydd newid yn yr amgylchiadau) ac y bydd yn parhau'n ddigonol os defnyddir y rhan o'r tŷ dan sylw unwaith eto i bobl fyw ynddi, rhaid iddynt roi terfyn ar y gorchymyn (yn gyfan gwbl neu'n rhannol, fel y bo'r achos). Os gwrthodant wneud hynny, fe allwch (onid ydych yn meddiannu'r rhan dan sylw o dan gytundeb tenantiaeth sydd â 3 blynedd neu lai i fynd) apelio i'r llys sirol cyn pen 21 niwrnod ar ôl i'r Cyngor wrthod eich cais.

(adran 278, fel y'i diwygiwyd gan adran 368(5))

**Y Llys Sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r gorchymyn hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cosbau**

Mae unrhyw un sydd, gan wybod bod y gorchymyn hwn wedi dod i rym ac yn gymwys i'r rhan y cyfeirir ati ym mharagraff 2 y gorchymyn hwn, yn ei defnyddio neu'n caniatáu i rywun arall ei defnyddio, yn groes i delerau'r gorchymyn hwn, yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol ac â dirwy bellach o ddim mwy nag £20 y dydd os yw'n parhau i gyflawni'r drosedd ar ôl ei gael yn euog.

(adran 277)

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ymgynghori â syrfewr.

# FFURFLEN 36

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 379

GORCHYMYN RHEOLI

1. Gwneir y gorchymyn hwn mewn perthynas â'r tŷ mewn amlddaliadaeth a elwir ("y tŷ").

2. [Bu i Gyngor ar gyflwyno rhybudd mewn perthynas â'r tŷ o dan adran [352 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol gwneud gwaith i wneud tŷ yn addas ar gyfer nifer y preswylwyr)] [372 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol gwneud gwaith i gywiro esgeuluso rheoli)] Deddf Tai 1985].

[Bu i Gyngor ar roi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r tŷ o dan adran 354 (hawl i gyfyngu ar nifer y preswylwyr) Deddf Tai 1985].

[Mae'n ymddangos i Gyngor y tŷ yn y fath gyflwr nes galw am weithredu o dan [adran 352 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol gwneud gwaith i wneud tŷ'n addas ar gyfer nifer y preswylwyr)] [adran 354 (pŵer i gyfyngu ar nifer y preswylwyr)] [adran 372 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol gwneud gwaith i gywiro esgeuluso rheoli)] Deddf Tai 1985].

3. Mae'n ymddangos i'r Cyngor fod yr amodau byw yn y tŷ yn ei gwneud yn angenrheidiol gwneud y gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch, lles neu iechyd personau sy'n byw yn y tŷ.

4. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 379 y Ddeddf, yn gwneud y gorchymyn rheoli hwn mewn perthynas â'r tŷ [ond yn hepgor o'i ddarpariaethau y rhan o'r tŷ a ddisgrifir yn Atodiad y gorchymyn, sef rhan a feddiennir gan berson sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ cyfan].

5. Daw'r gorchymyn i rym ar y dyddiad a ddangosir isod, sef dyddiad ei wneud.

[ATODIAD

Disgrifiad o'r rhan o'r tŷ a hepgorir o ddarpariaethau'r gorchymyn ]

[Dyddiad a dilysiad]

# FFURFLEN 37

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 379

TŶ MEWN AMLDDALIADAETHRHYBUDD A GYFLWYNIR GYDA'R GORCHYMYN RHEOLI

1. Yn unol ag adran 379 Deddf Tai 1985 fe gyflwynir y rhybudd hwn gyda chopīau o'r gorchymyn rheoli a wnaed gan y Cyngor ar mewn perthynas â

("y tŷ").

2. Oni nodir fel arall, mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985 (fel y'i diwygiwyd gan Atodiadau 9 a 12 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) [ac nid yw'r cyfeiriadau at y tŷ yn cynnwys y rhan o'r tŷ a ddisgrifir yn Atodiad y gorchymyn ac a hepgorir o ddarpariaethau'r gorchymyn].

3. Ymhlith materion eraill, mae'r rhybudd hwn–

(a) yn nodi effaith y gorchymyn mewn termau cyffredinol,

(b) yn cyfeirio at yr hawliau i apelio yn erbyn gorchymyn rheoli, ac

(c) yn dweud, yn yr atodlen, y prif resymau pam y mae'r Cyngor yn credu ei bod yn angenrheidiol gwneud y gorchymyn.

(adran 379(4))

**Effaith y gorchymyn**

4. Tra bo'r gorchymyn rheoli mewn grym, mae gan y Cyngor yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r tŷ–

(a) yr hawl i'w feddiannu,

(b) yr hawl i wneud unrhyw beth y byddai gan rydd-ddeiliad neu brydleswr y tŷ yr hawl i'w wneud, ac

(c) yr hawl i greu diddordebau tebyg i denantiaethau ar yr amod nad ydynt ar gyfer tymor penodedig o fwy na mis neu y gellir eu terfynu drwy rybudd i ymadael o fwy na 4 wythnos.

(adran 381)

5. Caiff y rhai sy'n meddiannu rhannau o'r tŷ (ac eithrio unrhyw un sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ cyfan) ar yr adeg y daw'r gorchymyn i rym eu trin fel petaent wedi dod yn denantiaid neu'n fyrddwyr (fel y bo'r achos) i'r Cyngor ar yr un telerau â'r rhai yr oeddent yn meddiannu'r tŷ arnynt cyn gwneud y gorchymyn, a bydd eu rhent neu daliadau tebyg eraill bellach yn daladwy i'r Cyngor yn lle'r person a oedd â'r hawl i'w cael yn flaenorol. Os bu i berson feddiannu rhan o dŷ o dan denantiaeth a ddiogelwyd neu denantiaeth statudol o dan Ddeddf Rhenti 1977, daliadaeth a ddiogelir neu denantiaeth statudol o dan Ddeddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 neu denantiaeth sicr neu ddaliadaeth amaethyddol sicr dan Ran I Deddf Tai 1988, bydd y denantiaeth neu'r ddaliadaeth yn parhau ac nid effeithir ar ei hawliau o dan y Deddfau hynny.

(adran 382)

6. Mae unrhyw rybuddion neu gyfarwyddiadau a roddwyd yn flaenorol gan y Cyngor mewn perthynas â'r tŷ o dan adrannau 352, 354 neu 372 y Ddeddf yn peidio â bod mewn grym gan fod y gorchymyn rheoli wedi ei wneud; ond ni fydd hynny'n rhwystro'r Cyngor rhag cael unrhyw dreuliau sy'n ddyledus iddynt am gyflawni gwaith nac yn arbed unrhyw berson rhag unrhyw rwymedigaeth droseddol sydd eisoes wedi ei thynnu.

(adran 381(4))

**Dyletswyddau'r Cyngor**

7. Mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ymarfer darpariaethau Rhan XI y Ddeddf yn dilyn adran 379, a chan roi sylw i'r dyletswyddau a roddwyd iddynt gan y darpariaethau hynny, fynd i mewn i'r eiddo a chymryd, ar unwaith, bob cam sy'n ymddangos iddynt hwy yn angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch, lles ac iechyd y personau sy'n byw yn y tŷ.

8. Rhaid i'r Cyngor–

(a) gynnal safonau cywir o reolaeth yn y tŷ,

(b) cywiro rhai diffygion penodol yn y tŷ, ac

(c) yswirio'r tŷ [gan gynnwys y rhan a ddisgrifir yn Atodiad y gorchymyn ac a hepgorir o ddarpariaethau'r gorchymyn].

9. Onid yw'r Cyngor yn gwneud gorchymyn prynu gorfodol mewn perthynas â'r tŷ cyn pen 28 niwrnod ar ôl gwneud y gorchymyn rheoli, mae'n ofynnol iddynt lunio cynllun rheoli ar gyfer y tŷ a chyflwyno copïau ohono i bersonau sydd â diddordeb cyn pen 8 wythnos ar ôl dyddiad gwneud y gorchymyn rheoli.

(adrannau 385 a 386 a Rhan IV Atodiad 13)

**Cynllun rheoli**

10. Bydd y cynllun rheoli–

(a) yn rhestru'r gwaith gwariant cyfalaf y cred y Cyngor fod ei angen er mwyn dod â'r tŷ i safon briodol,

(b) yn pennu'r nifer uchaf o unigolion neu deuluoedd y cred y Cyngor y dylent fyw yn y tŷ,

(c) yn cynnwys amcangyfrif o gost y gwaith cyfalaf ac amcangyfrif o'r gwargedion ar y cyfrif refeniw y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt fod ar gael i gyfarfod â'r gost honno.

(Atodiad 13, paragraff 1)

11. Rhaid i'r Cyngor gadw cyfrif sy'n dangos y gwarged ar y cyfrif refeniw a'r gwariant a dynnwyd wrth gyflawni'r gwaith. Rhaid sicrhau mantoliadau ar ddiwedd pob hanner blwyddyn. Pan fydd y gorchymyn rheoli yn peidio â bod mewn grym, rhaid mantoli'r cyfrif yn derfynol, a daw'r gwariant ar waith cyfalaf (gyda llog) sydd heb ei dalu o wargedion ar y cyfrif refeniw, ar yr amod iddo gael ei dynnu'n rhesymol, yn dâl ar y tŷ.

(Atodiad 13, paragraffau 4 ac 16)

**Iawndal**

12. Bydd gan y "perchennog a ddifeddiannwyd" (y person a oedd, cyn gwneud y gorchymyn rheoli, â'r hawl i gael y rhenti, neu daliadau tebyg eraill, oddi wrth feddianwyr rhannau o'r tŷ) yr hawl, tra bo'r gorchymyn mewn grym, i gael taliadau chwarterol o iawndal oddi wrth y Cyngor. Mae'r iawndal mewn perthynas â'r cyfnod y mae'r gorchymyn rheoli mewn grym yn seiliedig ar werth rhentol blynyddol y tŷ fel y penderfynir arno gan y Cyngor; ond penderfynir ar unrhyw anghydfod gan Brisiwr y Dosbarth.

(adran 389 a Rhan II Atodiad 13, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990 Rhif 434)

**Yr Hawl i Apelio**

13. Gall person sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ apelio i'r llys sirol yn erbyn y gorchymyn rheoli neu'r cynllun rheoli. Gall unrhyw berson arall a all gael ei ragfarnu gan y gorchymyn rheoli hefyd apelio yn ei erbyn. Rhaid cyflwyno unrhyw apêl cyn pen 6 wythnos ar ôl dyddiad cyflwyno'r cynllun rheoli neu unrhyw gyfnod hwy y gall y Cyngor ei ganiatáu yn ysgrifenedig. Os apelir yn erbyn y gorchymyn a'r cynllun, fe wrandewir ar y ddwy apêl, cyn belled ag sy'n ymarferol, gyda'i gilydd.

(adran 384(2) a (3) ac Atodiad 13, paragraff 3(1) a (4))

14. Gellir cyflwyno apêl yn erbyn y gorchymyn rheoli ar unrhyw un o'r seiliau canlynol–

(a) nad oedd cyflwr y tŷ yn galw am weithredu o dan adrannau 352, 354 neu 372;

(b) nad oedd yn angenrheidiol gwneud y gorchymyn rheoli er mwyn sicrhau diogelwch, lles neu iechyd y personau sydd, neu a oedd, yn byw yn y tŷ;

(c) ei bod yn ymarferol ac yn rhesymol i'r Cyngor fod wedi hepgor o'r gorchymyn ran o'r tŷ a feddiennir gan y perchennog a ddifeddiannwyd neu fod wedi hepgor rhan helaethach nag y maent wedi ei wneud;

(d) nad yw'r gorchymyn rheoli yn ddilys gan na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y Ddeddf neu oherwydd rhyw anffurfioldeb, diffyg neu wall yn y gorchymyn rheoli neu mewn cysylltiad ag ef (ond rhaid i'r llys gadarnhau'r gorchymyn, i'r graddau y seilir yr apêl ar y sail hon, oni fodlonir ef fod buddiannau'r apelydd wedi eu rhagfarnu'n sylweddol gan y ffeithiau y mae'n dibynnu arnynt).

(adran 384(1) a (4))

15. Gellir cyflwyno apêl yn erbyn cynllun rheoli ar unrhyw un o'r seiliau canlynol–

(a) bod unrhyw un neu rai o'r gweithiau cyfalaf a restrwyd yn y cynllun yn afresymol o ran eu cymeriad neu eu helaethrwydd, neu eu bod yn ddiangen;

(b) nad yw unrhyw un neu rai o'r gweithiau hynny'n cynnwys gwariant y dylid ei ystyried yn wariant cyfalaf;

(c) bod nifer yr unigolion neu'r teuluoedd sy'n byw yn y tŷ, fel y'u pennwyd gan y cynllun, yn afresymol o isel;

(d) bod yr amcangyfrif o'r gwargedau ar y cyfrif refeniw yn y cynllun yn rhy isel oherwydd y tybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynglŷn â materion sydd o dan eu rheolaeth (e.e. ynglŷn â'r rhenti a godir ganddynt).

(Atodiad 13, paragraff 3(2))

**Hawliau'r perchennog a ddifeddiannwyd a hawliau pobl eraill**

16. Rhaid i'r Cyngor–

(a) gadw cyfrifon llawn o'r incwm a'r gwariant mewn perthynas â'r tŷ,

(b) caniatáu i'r perchennog a ddifeddiannwyd neu unrhyw berson arall sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ cyfan (gan gynnwys tenant statudol o dan y Deddfau Rhenti) archwilio'r cyfrifon hynny, gwneud copïau ohonynt, a'u gwirio, ac

(c) caniatáu i unrhyw berson o'r fath archwilio'r tŷ.

(adran 390)

**Hawl mynediad a rhwystro**

17. Mae gan y Cyngor, a phersonau a awdurdodwyd ganddynt yn ysgrifenedig, yr hawl, yn erbyn person sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ, i fynd i mewn i unrhyw ran o'r tŷ [gan gynnwys y rhan a hepgorwyd ac a ddisgrifir yn Atodiad y gorchymyn] er mwyn ei harchwilio a chyflawni gwaith arni. Os yw person o'r fath yn rhwystro'r mynediad hwnnw, mae'n cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(adrannau 387(1)–(3) a 396)

18. Rhaid i feddianwyr rhannau o'r tŷ beidio â rhwystro'r Cyngor rhag cyflawni gwaith ar y tŷ. Os gwnânt hynny, gall llys ynadon eu gorchymyn i ganiatáu i'r gwaith angenrheidiol gael ei wneud. Mae methu â chydymffurfio â gorchymyn yn drosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy sydd heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol a dirwy feunyddiol barhaus o ddegfed ran o'r swm hwnnw.

(adran 387(4) a (5))

**Hyd y gorchymyn rheoli**

19. Bydd y gorchymyn rheoli'n peidio â bod mewn grym ar ôl 5 mlynedd, onid yw'r Cyngor yn ei ddiddymu cyn hynny. Gall unrhyw berson wneud cais i'r Cyngor gan ofyn iddynt ddiddymu'r gorchymyn, a nodi'r rhesymau dros wneud y cais. Os yw'r Cyngor yn gwrthod y cais, neu'n methu â hysbysu'r ymgeisydd o'u penderfyniad cyn pen 42 ddiwrnod (neu unrhyw gyfnod hwy y gall ef ei ganiatáu yn ysgrifenedig), gall yr ymgeisydd apelio i'r llys sirol.

(adrannau 392 a 393)

**Darpariaethau eraill**

20. I gael manylion darpariaethau statudol perthnasol eraill, dylid cyfeirio at y Ddeddf ei hun. Mae'r isod yn rhoi rhyw syniad o'r materion a drafodir:

(a) effaith y gorchymyn rheoli mewn perthynas â chelfi neu ddodrefn yn achos eiddo a osodir gyda chelfi neu ddodrefn (adran 383) a'r iawndal sy'n daladwy i'r perchennog a ddifeddiannwyd mewn perthynas â'r celfi neu'r dodrefn hynny (adran 389(1)(b));

(b) gall fod gan forgeiseion hawliau yn erbyn yr iawndal sy'n daladwy i berchennog a ddifeddiannwyd (adran 389(3));

(c) gall prydleswyr a phrydleseion y tŷ wneud cais i'r llys sirol am newid y brydles neu benderfynu arni (adran 391);

(d) os yw'r Cyngor yn cynnig diddymu gorchymyn rheoli, neu os yw'r llys sirol yn ei ddiddymu, gall y llys sirol gymeradwyo cyflwyno rhybudd o dan adran 352 neu 372 gan y Cyngor, neu roi cyfarwyddyd o dan adran 354, ac ni ellir gwneud unrhyw apêl yn erbyn rhybudd a gymeradwywyd felly (adran 392(5) ac Atodiad 13, paragraff 21(4));

(e) gall y Cyngor neu unrhyw berson sydd ag ystad neu ddiddordeb yn y tŷ wneud cais i'r llys sirol am adolygu'r gwargedau ar y cyfrif refeniw a setlwyd gan gynllun rheoli (Atodiad 13, paragraff 6);

(f) canlyniadau ariannol cyffredinol lle bo'r gorchymyn rheoli'n peidio â bod mewn grym neu lle caiff ei ddiddymu gan lys sirol ar apêl (Atodiad 13, Rhan III);

(g) y canlyniadau lle dilynir gorchymyn rheoli gan orchymyn prynu gorfodol (Atodiad 13, Rhan IV).

**Pridiant Tir**

21. Mae'r rhybudd yn bridiant tir lleol ar yr eiddo y mae'n ymwneud ag ef. Ystyr hynny yw y caiff ei gofnodi ar y gofrestr o bridiannau tir lleol a gedwir gan y Cyngor. Mae'r rhestr yn un gyhoeddus a gall unrhyw un ei harchwilio ar ôl talu ffi. Bydd prynwyr fel rheol yn archwilio'r gofrestr hon.
(adran 381(5))

**Y Llys Sirol**

22. Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cyngor**

23. Os nad ydych yn deall y gorchymyn rheoli neu'r rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdanynt, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

ATODLEN

Y prif resymau dros wneud y gorchymyn rheoli

[Dyddiad a llofnod]

# FFURFLEN 38

## DEDDF TAI 1985

## ATODIAD 13 PARAGRAFF 25

RHYBUDD O FANTOLION SY'N DALADWY I BERCHENNOG A DDIFEDDIANNWYDADEG TERFYNU GORCHYMYN RHEOLI

At o
[a o ],
sef y perchennog [perchnogion] a ddifeddiannwyd o'r tŷ mewn amlddaliadaeth a elwir
("y tŷ").

1. Gwnaeth Cyngor orchymyn rheoli o dan adran 379 Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r tŷ ar

2. Ar gwnaeth y Cyngor orchymyn prynu gorfodol ar gyfer prynu'r tŷ o dan Ran II y Ddeddf (darparu llety tai).

3. Cadarnhaodd y Ysgrifennydd Gwladol y gorchymyn prynu gorfodol ar ac ar fe beidiodd y gorchymyn rheoli â bod mewn grym yn rhinwedd paragraff 24 Atodiad 13 y Ddeddf.

4. Mae'r Cyngor yn cynnig talu i chi y swm o , sef y gwarged a gafodd y Cyngor o bryd i'w gilydd mewn perthynas â'r tŷ, fel y'i cyfrifwyd o dan baragraff 25(1) Atodiad 13.

5. Gallwch apelio i'r llys sirol cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn, neu unrhyw gyfnod hwy y gall y Cyngor ei ganiatáu yn ysgrifenedig.

[6. Gan eich bod yn berchnogion a ddifeddiannwyd o wahanol rannau o'r tŷ, caiff y swm a nodwyd ym mharagraff 4 uchod ei rannu rhyngoch yn y ffordd y darperir ar ei chyfer gan baragraff 14 Atodiad 13.]

[Dyddiad a llofnod]

## NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985.)

### Perchennog a ddifeddiannwyd

Y perchennog a ddifeddiannwyd o'r tŷ yw'r person a fyddai, oni bai am wneud y gorchymyn rheoli, wedi cael y rhent neu unrhyw daliadau cyfnodol eraill y cafodd y Cyngor yr hawl i'w cael adeg y daeth y gorchymyn i rym, ac olynwyr teitl y person hwnnw.

(adran 399)

### Terfynu'r gorchymyn rheoli

Peidiodd y gorchymyn rheoli â bod mewn grym ar y dyddiad y bu i'r Cyngor [wneud contract i brynu'r tŷ] [gyflwyno rhybudd o dan adran 11 Deddf Prynu Gorfodol 1965].

(Atodiad 13, paragraff 24)

### Cyfrifo'r mantolion

Y swm y nodwyd ei fod yn daladwy ym mharagraff 4 y rhybudd yw'r fantol a gafwyd gan y Cyngor o bryd i'w gilydd ar ôl tynnu o'r rhent neu o daliadau eraill a gafwyd ganddynt oddi wrth bersonau a oedd yn meddiannu'r tŷ–

(a) yr iawndal sy'n daladwy i'r perchennog a ddifeddiannwyd o dan adran 389, a

(b) pob gwariant (ac eithrio gwariant cyfalaf) a dynnwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r tŷ tra bu'r gorchymyn rheoli mewn grym.

(Atodiad 13, paragraff 25(1))

### Apelio i'r llys sirol

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Pwerau'r llys sirol**

Gall y llys gynyddu'r mantolion sy'n daladwy i'r perchennog a ddifeddiannwyd os cred (gan roi sylw i rai ffactorau penodol) fod y swm a nodwyd yn y rhybudd hwn yn rhy isel am unrhyw reswm sydd o fewn rheolaeth y Cyngor, ond rhaid i unrhyw gynnydd yn y taliad a gyfarwyddir gan y llys beidio â bod yn uwch na'r swm y cred y llys y gall y perchennog a ddifeddiannwyd fod wedi ei golli oherwydd gwneud y gorchymyn rheoli.

(Atodiad 13, paragraff 25(4) a (5))

**Tynnu swm allan i dalu am wariant cyfalaf**

Gall y Cyngor dynnu allan o'r mantolion sy'n daladwy i chi o dan y rhybudd hwn unrhyw wariant cyfalaf y maent wedi ei dynnu'n rhesymol wrth gyflawni'r gwaith ar y tŷ tra bu'r gorchymyn rheoli mewn grym. Os dymunant wneud hynny, rhaid iddynt gyflwyno i chi rybudd ar wahân.

(Atodiad 13, paragraff 26)

**[Dosrannu**

Lle bo personau gwahanol yn berchnogion a ddifeddiannwyd o wahanol rannau o'r tŷ, rhaid dosrannu rhyngddynt y swm a nodir ym mharagraff 4 y rhybudd hwn, yn unol â chyfraneddau'r gwerth gròs, neu fel y bo'r achos, werth rhentol y tŷ sydd i'w briodoli'n gywir i'r rhannau o'r tŷ y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Os nad ydynt yn cytuno, fe benderfynir ar y dosraniad gan brisiwr y dosbarth.

(Atodiad 13, paragraffau 14(1) a (2), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 1990 Rhif 434)]

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

# FFURFLEN 39

## DEDDF TAI 1985

## ATODIAD 13 PARAGRAFF 26

RHYBUDD SYN PENNU'R GWAITH CYFALAF ADEG TERFYNU GORCHYMYN RHEOLI

At o
[a o ],
sef y perchennog [perchnogion] a ddifeddiannwyd o'r tŷ mewn amlddaliadaeth a elwir ("y tŷ").

1. Gwnaeth Cyngor orchymyn rheoli o dan adran 379 Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r tŷ ar

2. Ar gwnaeth y Cyngor orchymyn prynu gorfodol ar gyfer prynu'r tŷ o dan Ran II y Ddeddf (darparu llety tai).

3. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y gorchymyn prynu gorfodol ar ac ar fe beidiodd y gorchymyn rheoli â bod mewn grym yn rhinwedd paragraff 24 Atodiad 13 y Ddeddf.

4. Er mwyn i'r Cyngor allu adennill y gwariant cyfalaf a dalwyd wrth gyflawni'r gwaith yn y tŷ yn ystod y cyfnod cyn i'r gorchymyn rheoli beidio â bod mewn grym, mae'r Cyngor yn pennu bod y gwaith a ddisgrifir yn Atodiad y rhybudd hwn yn waith–

(a) y gallai'r Cyngor, pe na bai'r gorchymyn rheoli mewn grym, fod wedi ei wneud yn ofynnol i ryw berson ei gyflawni o dan unrhyw un o ddarpariaethau Rhan XI y Ddeddf (tai mewn amlddaliadaeth) neu o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â thai neu iechyd cyhoeddus, a

(b) na ellid bod wedi ei ohirio gan fod angen ei wneud ar fyrder er mwyn sicrhau diogelwch, lles neu iechyd y personau sy'n byw yn y tŷ, neu bersonau eraill.

5. Gallwch apelio i'r llys sirol cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn, neu unrhyw gyfnod hwy y gall y Cyngor ei ganiatáu yn ysgrifenedig.

ATODIAD

Disgrifiad o'r gwaith sydd i'w gyflawni

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(Mae'r cyfeiriadau statudol yn gyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985.)

**Perchennog a ddifeddiannwyd**

Y perchennog a ddifeddiannwyd o'r tŷ yw'r person a fyddai, oni bai am wneud y gorchymyn rheoli, wedi cael y rhent neu unrhyw daliadau cyfnodol eraill y cafodd y Cyngor yr hawl i'w cael adeg y daeth y gorchymyn i rym, ac olynwyr teitl y person hwnnw.

(adran 399)

**Terfynu'r gorchymyn rheoli**

Peidiodd y gorchymyn rheoli â bod mewn grym ar y dyddiad y bu i'r Cyngor [wneud contract i brynu'r tŷ] [gyflwyno rhybudd o dan adran 11 Deddf Prynu Gorfodol 1965].

(Atodiad 13, paragraff 24)

**Effaith y rhybudd**

Gall y gwariant a dynnwyd yn rhesymol gan y Cyngor wrth gyflawni'r gwaith a bennir yn Atodiad y rhybudd hwn (neu yn y rhybudd fel y'i hamrywiwyd ar apêl) gael ei dynnu ganddynt o'r mantolion y maent yn agored i'w talu i'r perchennog a ddifeddiannwyd o dan baragraff 25 Atodiad 13 ac sy'n destun rhybudd ar wahân y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei gyflwyno i chi.

(Atodiad 13, paragraff 26(4))

Os yw'r gwariant yn uwch na'r mantolion hynny, gellir ei dynnu o'r swm sy'n daladwy fel iawndal os prynir yr eiddo'n orfodol.

(Atodiad 13, paragraff 26(5))

**Apelio i'r llys sirol**

Os penderfynwch apelio, bydd angen i chi wneud cais i'ch llys sirol lleol (cewch y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Courts'). Bydd staff y llys yn dangos i chi sut mae geirio'ch cais. Rhaid i chi gyflwyno copi o'r rhybudd hwn gyda'ch cais. Bydd angen i chi hefyd gael copi ychwanegol o'ch cais er mwyn i'r llys ei anfon i'r Cyngor.

**Cyngor**

Os nad ydych yn deall y rhybudd hwn neu os dymunwch wybod rhagor amdano, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os oes arnoch eisiau cyngor annibynnol ynglŷn â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau, dylech fynd at Ganolfan Gynghori, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Cyfraith neu gyfreithiwr. Efallai y gallwch gael cymorth gyda'r cyfan neu ran o gost cael cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr o dan y Cynllun Cymorth Cyfreithiol. Os na wyddoch a allech wneud cais am Gymorth Cyfreithiol, gallwch weld cyfreithiwr a all fod yn barod i roi hanner awr o gyngor cyfreithiol i chi am dâl bychan.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe Welsh versions of the forms for use by local housing authorities for the purposes of Parts VI (repair notices), IX (slum clearance), X (overcrowding) and XI (houses in multiple occupation) of the Housing Act 1985.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu gersyniau Cymraeg o'r ffurflenni a ddefnyddir gan awdurdodau tai lleol at ddibenion Rhannau VI (rhybuddion atgyweirio), IS (clirio slymiau), X (gordyrru), ac XI (tai mewn amlddaliadaeth) Deddf Tai 1985.